# Y DINESYDD

Tachwedd 2021 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 463 £1.20



Gareth Johns Photography

Argae Parc y Rhath
tud.4

EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD 2022

Gweler manylion ar dud. 2



Andy Bell
tud. 20

Arlunwaith buddugol Anna Hughes, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg
tud. 6



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Alun Treharne**

***Golygyddion Rhagfyr / Ionawr***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn 27 Tachwedd at:
eirianagwilym@gmail.com
Hengoed, 4 Coryton Rise,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd,
CF14 7EJ
029 20657108

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD 2022

# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2022

Bydd Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd yn dychwelyd ddydd Sadwrn 22 Ionawr 2022 i Ysgol Gyfun Plasmawr. Mae trefniadau i gynnal eisteddfod yn yr ysgol a fydd yn cynnwys cystadlaethau llwyfan yn ogystal â gwobrwyo enillwyr y cystadlaethau gwaith cartref.

Mae cystadleuaeth y Gadair yn ei hôl, ac mae nifer o gystadlaethau eraill newydd hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys cystadlaethau cyfansoddi i bob oedran a chystadleuaeth agored y Fedal Lenyddiaeth. Y beirniaid ar gyfer y cystadlaethau rhyddiaith yw Manon Steffan Ros a Geraint Lewis. Aneirin Karadog ac Eurig Salisbury fydd yn beirniadu'r beirdd. Bydd Betsan Evans yn craffu ar y ffotograffau a Gareth Olubumni Hughes fydd yn beirniadu'r cystadlaethau cerddoriaeth.

Yn ogystal â'r testunau gwaith cartref, mae'r cystadlaethau llwyfan hefyd i'w gweld ar ein gwefan, eisteddfodcaerdydd.cymru. 'Ry'n ni wedi bod yn ffodus iawn bod y beirniaid a gytunodd yn wreiddiol i feirniadu yn eisteddfod 2021 wedi cytuno i wneud yn 2022! Felly ein beirniaid talentog ym mis Ionawr fydd Robert Arwyn, Rhiannon Lewis, Elin Williams, Dyfrig Davies, Tudur Philips, Anni Llŷn a Marged Jones.


Mae manylion y testunau i gyd a chyfarwyddyd sut i gystadlu ar ein gwefan eisteddfodcaerdydd.cymru. Os hoffech gysylltu â ni am unrhyw reswm, yna gallwch e-bostio cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru. Cofiwch fynd ati i greu a pharatoi!

Yn ogystal, os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn noddi'r eisteddfod, byddem yn falch iawn o glywed wrthych. Anfonwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru.

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Mae'n teimlo megis ddoe pan hedfanais i o faes awyr Heathrow i Caracas yn Venezuela ac oddi yno i Buenos Aires. "*

Mae hi'n fis Tachwedd bellach ac i mi dyma fis mwyaf diflas y flwyddyn gan fod y nosweithiau'n hir a'r dydd yn fyr a'r tywydd yn gallu bod yn ddigon beth 'ma yr adeg hon o'r flwyddyn. Ond yr hyn sy'n codi calon llawer un ym mis Tachwedd ydy'r ffaith fod y Nadolig ar y gorwel – gan obeithio bydd y Nadolig eleni yn hapusach na'r Nadolig y llynedd! Ond trywydd y firws fydd yn rheoli'r sefyllfa ac felly croesi bysedd y bydd popeth yn fwy normal eleni ac y cawn fwynhau'r Ŵyl yng nghwmni teulu a ffrindiau.

Fel rhan o ddathliadau hanner canrif ers sefydlu Mudiad Meithrin cyhoeddwyd llyfr dan olygyddiaeth Mererid Hopwood yn dwyn y teitl *Cylch o Hanner Canrif 1971-2021* ac mae'n llyfr hynod o ddeniadol a lliwgar hefo llu o luniau a nifer o erthyglau gan bobl a fu'n ymwneud â'r Mudiad dros yr hanner canrif. Mynnwch gopi er mwyn i chi sylweddoli pwysigrwydd y Mudiad yn y frwydr i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesa.

Eleni hefyd mae deng mlynedd ar hugain wedi mynd heibio ers i mi gychwyn i'r Ariannin ar ddiwedd Eisteddfod Genedlaethol yr Wyddgrug yn 1991 i ddysgu Cymraeg yn y Wladfa ym Mhatagonia. Mae'n teimlo megis ddoe pan hedfanais i o faes awyr Heathrow i Caracas yn Venezuela ac oddi yno i Buenos Aires. Odd myfyriwr pensaernïol, gynt o Drelew, yn fy nisgwyl ym maes awyr Buenos Aires o'r enw Fernando Williams. Odd o wedi dysgu Cymraeg ar un o gyrsiau haf Prifysgol Llanbedr Pont Steffan. Ces i fy nhywys ganddo i gartre Eilir a Nellie Nicols, gynt o'r Gaiman, yn y ddinas cyn trefnu i hedfan i Drelew yn Nyffryn Camwy. Derbyniais i groeso hyfryd gan y cwpwl ac odd eu Cymraeg yn dal yn loyw er iddyn nhw fyw ym Muenos Aires ers deugain mlynedd.

Yn anffodus mae'r frwydr i gadw ysgol fach Abersoch yn Llŷn ar agor wedi methu ac felly bydd yr ysgol yn cau ar ddiwedd y tymor hwn a'r disgyblion yn symud i Ysgol Sarn Bach ger Abersoch. Mae llawer o ysgolion bach y wlad mewn perygl gan ei bod mor gostus i'w cadw ar agor. Yn ddiweddar cafwyd enghraifft o hyn yn Sir Powys lle mae rhieni Ysgol Cradoc ger Aberhonddu a rhieni Ysgol Llanbedr ger Crucywel yn paratoi i geisio amddiffyn yr ysgolion hyn rhag cau. Pob lwc iddyn nhw yntê.

Tybed sawl un ohonoch a wyliodd Râs Marathon Llundain y mis diwethaf a gweld Cymro Cymraeg o'r enw Josh Griffiths o Sir Gaerfyrddin yn dod yn wythfed yn râs y dynion? Odd hyn yn dipyn o gamp ac ychydig o flynyddoedd yn ôl llwyddodd Josh i ddod yn seithfed a synnu pawb gan nad odd o'n adnabyddus y pryd hynny! O ganlyniad i ddod yn seithfed cafodd fynd i Chwaraeon y Gymanwlad ar yr Arfordir Aur yn Awstralia i gynrychioli Prydain yn râs y Marathon. Ond yn anffodus ar ddiwrnod y râs yno odd y tywydd yn chwilboeth a'r holl redwyr yn dioddef yn y gwres mawr a chael a chael odd hi i Josh druan orffen y râs. Bu'n rhaid i enillydd y râs gael triniaeth o effaith y gwres mewn ysbyty yno!

Ar y deunawfed o Hydref eleni odd Parc Cenedlaethol Eryri yn 70 oed: dyma'r Parc Cenedlaethol cyntaf i'w sefydlu yng Nghymru. Mae'r Wyddfa, mynydd uchaf Cymru a Lloegr, wedi ei lleoli yn y Parc. Tybed sawl un o ddarllenwyr y golofn hon sy wedi bod i'r copa ar drên neu ar droed? Flynyddoedd lawer yn ôl bellach, pan on i'n swog yng Ngwersyll yr Urdd Glanllyn, bues i ben yr Wyddfa sawl tro hefo criwiau o wersyllwyr a hynny pan nad odd rhaid ciwio i sefyll ar y copa! Un tro dilynais i Daith y Bedol hefo ffrind llawer mwy anturus na mi gan ddechrau'r daith ar lwybr Pen y Pas ac yna dros Grib Goch i'r copa ac i lawr wedyn dros Lliwedd i Ben y Pas. Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i wedi cael tipyn o ofn wrth grafangu ar hyd Crib Goch! Ond on i'n teimlo'n eitha balch o'm gorchest ar ddiwedd yr antur!

Daeth newyddion da o Sir Benfro gan y bydd ysgol Gymraeg yn agor ym Mhenfro yn 2023 ac fe'i gelwir yn Ysgol Gymraeg Bro Penfro. Ar ben hyn bydd Ysgol y Preseli ac Ysgol y Frenni yn uno i ffurfio Ysgol Bro Preseli yng Nghrymych ar gyfer disgyblion 3-19 oed, a hynny yn 2022.

Mae tîm pêl-droed Cymru, dan gapteniaeth Aaron Ramsey yn absenoldeb Gareth Bale oherwydd anaf, yn dal yn y râs i gael mynediad i Gystadleuaeth Cwpan Pêl-droed y Byd yn Qatar y flwyddyn nesa a byddan nhw'n chwarae dwy gêm dyngedfennol yn erbyn Belarus a Gwlad Belg y mis hwn. Dymunwn bob lwc i'r tîm. Byddai'n braf gweld y tîm yn cystadlu yn Qatar hefo cefnogaeth groch y Wal Goch!

Tan y tro nesa cadwch yn saff a byddwch lawen er gwaethaf popeth!

# PROSIECT ARGAE PARC Y RHATH

## Cynnal a Chadw Strwythur yr Argae

Bu Llyn Parc y Rhath a'i llwybrau yn gyrchfan hynod boblogaidd i gerddwyr a rhedwyr yn ystod cyfnodau clo y pandemig. Mae'r llyn yn gronfa ddŵr a gafodd ei chreu drwy osod argae i'r de a'i bwydo gan Nant Fawr. Mae Cyngor Caerdydd yn gyfreithiol gyfrifol am gynnal Argae Parc y Rhath, sy'n eiddo cyhoeddus, ac mae archwiliadau rheolaidd yn ofynnol o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr (1975).

Mae'r archwiliad diweddaraf ar y gronfa wedi darganfod na fyddai gorlifan yr argae, sef y rhaeadr sy'n disgyn wrth ochr y caffi, yn ddigon mawr i wrthsefyll llifogydd eithafol a allai, yn ddamcaniaethol, ddigwydd yn y dyfodol, ac felly mae angen gwelliannau.



*Gorlifan yr argae (Gareth Johns Photography)*

Ar hyn o bryd mae Cyngor Caerdydd yn archwilio'r opsiynau gorau i sicrhau effeithiolrwydd yr argae yn y dyfodol a sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau un o barciau mwyaf poblogaidd Caerdydd yn ddiogel. Penodwyd Arup, ymgynghorwyr peirianneg blaenllaw, i gynnal astudiaeth i nodi'r opsiynau gorau. Cynhelir yr astudiaeth fanwl hon yn ystod yr hydref eleni a gall olygu tarfu dros dro ar fynediad i'r promenâd ar draws yr argae ger y goleudy, man chwarae'r plant a llwybrau eraill.

Fel rhan o'r astudiaeth i bennu'r opsiynau gorau ar gyfer gwaith i'r argae, cynhelir ymchwiliad tir ym mis Tachwedd. Bydd hyn yn golygu bod tyllau o wahanol faint a siâp yn cael eu palu yn yr argae ac wrth ochr y gorlifan, fel y gellir astudio cyfansoddiad y ddaear. Bydd y deunydd a gloddir allan yn cael ei ddadansoddi mewn labordy a defnyddir y canlyniadau i ddatblygu dyluniad y gwelliannau ac i bennu cwmpas y prosiect a'r gwaith adeiladu ei hun.

Yn dilyn ymgysylltu â'r gymuned, dylunio, ac yn amodol ar benderfyniad cynllunio, bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ym mis Tachwedd 2022 ac yn para tan ddiwedd 2023.

Mae gwybodaeth lawn am y prosiect ar www.caerdyddawyragored.com/argaeparcyrhath. Gellir cysylltu hefyd â thîm y prosiect ar y ffôn, 02920 130 061, neu dros e-bost roathparkdam@grasshopper-comms.co.uk, am fwy o wybodaeth neu os hoffech dderbyn diweddariadau rheolaidd am y prosiect.

## Elusen Sefydliad DPJ: Estyn Cymorth i'r Sector Amaethyddol

'Haia! Sut wyt ti?'

Cwestiwn cyffredin iawn, un y byddwn yn ei ddefnyddio bron bob dydd i gyfarch rhywun. Mae bron yn gwestiwn difeddwl; ydyn ni mewn gwirionedd yn gofyn o ddifri sut mae'r person arall neu ai dim ond ffordd o gyfarch ydyw?

Mae ein cymunedau bach yng Nghymru yn glos iawn. Ydych chi'n gallu sylwi ar rywun o fewn eich cymuned chi os ydyn nhw'n cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl? A fyddech yn gallu adnabod person o fewn eich cymuned petaen nhw'n mynd drwy gyfnod anodd? A fyddech chi yn gwybod beth i'w wneud i'w helpu neu hyd yn oed beth i'w ddweud wrthynt? Dyma lle gall Sefydliad DPJ helpu. Rydym yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl am ddim i gefnogi unrhyw un sy'n ffermio, yn byw yn y gymuned wledig neu'n darparu cymorth neu wasanaethau i'r gymuned ffermio yng Nghymru. Wrth fod yn aelod o Ferched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifanc, pwyllgorau yn y gymuned, y neuadd gymunedol, ysgolion cynradd ac uwchradd, y dafarn leol a hefyd y siop leol, rydych yn rhan o gymuned ac yn gallu helpu rhywun.



Sefydlwyd Sefydliad DPJ yn 2016 yn dilyn marwolaeth Daniel Picton-Jones drwy hunanladdiad. Nod y sefydliad yw cefnogi'r rhai yn y sector amaethyddol sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael. Roedd Daniel yn ei chael hi'n anodd mynd i weld y meddyg ac ni sylwodd llawer o bobl oedd o'i gwmpas ei fod yn dioddef o iechyd meddwl gwael. Penderfynodd ei weddw, Emma, greu'r sefydliad i gefnogi'r sector amaethyddol gyda iechyd meddwl, i'r rhai sy'n teimlo'n union fel y gwnaeth Daniel, gan roi'r cymorth iddynt nad oeddent yn gwybod sut i'w gael.

Os nad ydych chi'n teimlo fel chi eich hun, yn mynd drwy gyfnod anodd mewn perthynas, yn unig, yn ceisio delio â phrofedigaeth, yn galaru neu unrhyw beth arall sydd yn eich poeni, os yw yn fater bach neu fawr, gallwn helpu. Ffoniwch 0800 587 4262 / Testun 07860 048799.

Mae ein llinell ffôn a gwasanaeth neges testun, 'Rhannwch y Baich', yn gwbwl gyfrinachol ac yn cael eu rhedeg gan ein gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi gan y Samariaid i allu eich helpu. Mae cwnselydd yn cysylltu â'r rhai sy'n galw o fewn 48 awr a chânt eu gweld o fewn wythnos. Cynigir cwnsela ar y fferm, ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb mewn lleoliad oddi ar y fferm. Mae ein cwnselwyr yn siarad Cymraeg a Saesneg ac wedi eu lleoli ym mhob rhan o Gymru.

Estynnwch allan at y rhai sydd efallai yn mynd drwy gyfnod anodd. Gall eich caredigrwydd wneud gwahaniaeth ym mywyd rhywun.

Gallwch ddod o hyd i elusen Sefydliad DPJ ar-lein yn www.thedpjfoundation.co.uk neu ar Facebook, Twitter, Instagram a LinkedIn.

# Colofn Natur

## *Caerdydd y Cyfnod Cretasaidd*



**Gethin Jenkins-Jones**

O'r holl gyfnodau hanesyddol â bywyd dros y 3.7 biliwn o flynyddoedd diwethaf, nid oes amheuaeth taw cyfnodau'r deinosoriaid yw'r rhai mwyaf adnabyddus a phoblogaidd i ni heddiw. Mae meddwl am y cewri fel Tyranosor, Braciosor ac eraill yn ennyn amryw o deimladau – o syndod ac ysbrydoliaeth, i barchedig ofn ac arswyd. A gan ein bod eisoes wedi teithio yn ôl i'r cyfnod Carbonifferaidd a'r cyfnod Permaidd, mae nawr yn amser i ni ymweld â'r cyfnod hwn ein hun! Aethom i'r cyfnod Jwrasig yn rhifyn mis Mawrth (cyn cychwyn y gyfres), felly y tro hwn awn ni i weld sut bu Caerdydd yn ystod pennod olaf (a mwyaf cyffrous) y deinosoriaid - y cyfnod Cretasaidd.

Pan ddaeth y cyfnod Permaidd i ben ryw 251 miliwn o flynyddoedd yn ôl, newidiodd y byd yn sylweddol. Gyda llai o fioamrywiaeth yn dilyn trychineb hinsawdd ar ddiwedd y cyfnod, manteisiodd grŵp bach o ymlusgiaid – y deinosoriaid – ar y cyfle i ddominyddu'r tir. Dros amser esblygon nhw i fod yn fwy o faint, ac erbyn diwedd y cyfnod Jwrasig (150 m.b.y.y) gwelwyd rhai anferth am y tro cyntaf. Roedd newidiadau daearyddol hefyd ar waith. Ymddatododd yr uwch-gyfandir Pangea, ac yn araf gwasgarodd ein cyfandiroedd presennol. Ond roedd yr hinsawdd o hyd yn gynnes, ac erbyn y cyfnod Cretasaidd cynnar, dim ond 18% o arwyneb y ddaear oedd yn dir (o'i gymharu â 28% heddiw) oherwydd lefelau uchel y môr. Am gyfnod roedd Cymru yn rhan o glwstwr o ynysoedd â'r enw Galelia, ac ar adegau roedd Caerdydd yn llwyr dan wyneb y môr.

Dw i am fynd â chi yn ôl 121 miliwn o flynyddoedd, i adeg gymharol gynnar y Cretasaidd. Mae'n brynhawn, ac rydym yn sefyll mewn coedwig wyrddlas yn agos at draeth prydferth. Unwaith eto mae'n ddiwrnod poeth, ond mewn ychydig oriau bydd yr haul yn suddo dros y gorwel am ddiwrnod arall. Er ein bod yn bell o'n cyfnod presennol, mae'r olygfa yn weddol debyg i'r trofannau heddiw. Yn ogystal â'r rhedyn a'r coed pinwydd, a fodolai gynt, yn tyfu o'n cwmpas mae coed mwy modern fel ffigysen, llawryfen, sycad a magnolia. Ac, am y tro cyntaf, gwelwn blanhigion â blodau, a'u petalau lliwgar yn lled agored. Wrth gerdded tuag atynt mae haid o bili-palod yn esgyn ohonynt, ac mae mwmian rhythmig i'w glywed o fyddin o wenyn yn prysur beillio.




*Sycad*

Mae llonyddwch y foment yn diflannu'n sydyn wrth i ni glywed sŵn o'r llystyfiant. Symudwn yn gyflym y tu ôl i foncyff mewn pryd i weld pâr o Valdosaurus yn cerdded heibio. Yn lwcus i ni, bwytawyr planhigion yw'r deinosoriaid hyn, wedi dod i wledda ar y blodau. Maent yn weddol fychan – tua metr o daldra yn sefyll ar eu dwy goes – ac â gwddf a chynffon hir. Syllwn arnynt yn bwydo am ychydig cyn sleifio'n ddistaw i'r môr.

Mae tywod mân y traeth yn feddal dan draed. Gerllaw mae crwban yn cloddio twll bas i ddodwy ei wyau ac, yn nes at y lan, mae sgerbwd â siâp tebyg i anghenfil Loch Ness. Plesiosor oedd hwn pan oedd yn fyw – prif ysglyfaethwr moroedd y cyfnod Cretasaidd – a thyfai'r rhai mwyaf dros bymtheg metr o hyd.

*Valdosaurus*



Wrth gerdded yn ôl wedi gweld y machlud, safwn yn stond wrth weld anifail anferth yn rhwygo i mewn i gnawd Valdosaurus, sydd nawr yn gorff llonydd ar y llawr. Mae llygaid Eotyrannus yn syllu arnom, a gwaed yn diferu o'i ddannedd miniog. Efo taldra dros dri metr ac efo crafangau hir, angheuol, nid yw'n ddoeth aros yn ei gwmni. Gwell rhedeg yn ôl i'r peiriant amser!

*Eotyrannus*



Er mor hardd oedd y cyfnod Cretasaidd, roedd ecosystemau'r oes hefyd yn frawychus, a grym natur byth yn bell. Parhaodd y cyfnod am amser maith cyn iddo orffen yn sydyn. Rhyw 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl tarodd asteroid ein planed, a daeth Oes y Deinosoriad i ben. Ond yn eu habsenoldeb symudodd grŵp arall o anifeiliaid i'r llwyfan i ddominyddu'r tir, ac yn fuan adferodd ecosystemau i'w hamrywiaeth blaenorol efo chwaraewyr newydd wrth y llyw – y mamaliaid!

***Lluniau: Laura Giles***

# Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg



Anna Hughes

**Artist y dyfodol!**
Llongyfarchiadau mawr i Anna Hughes, Blwyddyn 9, am ennill cystadleuaeth arlunio Canolfan Celfyddydau Chapter, Treganna. Cyhoeddodd y ganolfan gystadleuaeth i ddisgyblion ddylunio darlun i'w arddangos yno. Y briff oedd creu darlun o'r dyfodol – i yrru cerdyn post i'w hunain o'r dyfodol dychmygus, 50 mlynedd yn ddiweddarach. Cystadlodd dros 1,200 o bobl ifanc Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-Bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Daeth Anna i'r brig yn ei chategori oedran ac aeth ymlaen i ennill y brif wobr mewn pleidlais gyhoeddus. Bydd seremoni i ddadorchuddio'r darlun – a gaiff ei chwyddo i'w arddangos dros brif fynedfa canolfan Chapter – ar nos Wener, 12 Tachwedd.

**Cael 'hwyl' arni**
Dewiswyd Efa Thomas, Blwyddyn 9, i fod yn rhan o Garfan Hwylio Genedlaethol RYA Cymru. Dechreuodd diddordeb Efa mewn hwylio pan aeth ar gwrs haf ym Mlwyddyn 5 ac yna ymunodd â Chlwb Hwylio Bae Caerdydd. Bellach, bydd Efa yn hyfforddi a chystadlu gyda'r garfan yn gyson gyda'r nod o gyrraedd carfan Prydain yn y dyfodol. Pob hwyl!



***Efa Thomas***

**Tîm Sgïo**
Cystadlodd disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ym Mhencampwriaethau Sgïo Ysgolion Cymru yn Llangrannog ym mis Hydref a chawsant gryn lwyddiant. Bu tri thîm o'r ysgol yn cystadlu, gyda Thîm 'A' y bechgyn yn dod yn bedwerydd ac felly yn mynd ymlaen i Bencampwriaethau Prydain ym mis Tachwedd. Enillodd Rhys Lewis, Blwyddyn 7, y fedal arian yn y gystadleuaeth i fechgyn o dan 12 oed. Daeth Aled Phillips, Blwyddyn 9, yn Bencampwr Sgïo Ysgolion Cymru o dan 14 mlwydd oed ac yn drydydd o'r holl fechgyn. Pencampwraig Sgïo Ysgolion Cymru am eleni yw Heather Heslop, Blwyddyn 11, ac fe enillodd hi ei chategori oedran yn ogystal. Llongyfarchiadau!

***Y Tîm Sgio***



# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun, 18 Hydref 2021, dechreuon ni ein tymor newydd gyda sgwrs wych gan Heulyn Jones o Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau Prifysgol Caerdydd. Yn wreiddiol o Gaerfyrddin aeth Heulyn i Ysgol y Dderwen ac yna i Ysgol Bro Myrddin, gyda Ken Owens a Rhys Priestland yn gyd-ddisgyblion iddo, cyn symud i Gaerdydd i wneud gradd israddd a doethuriaeth. Wedi cyfnodau o ymchwil ym Manceinion a Glasgow dychwelodd i Gaerdydd i awyrgylch Cymreig iawn y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau.

Dechreuodd Heulyn drwy esbonio beth yw protein, sef strwythur cymhleth o asidau amino sy'n rhan hanfodol o bopeth byw, a'i rôl yn y clefyd X Fregus (*Fragile X Syndrome*) lle mae celloedd y corff yn methu cynhyrchu protein arbennig o'r enw FMRP sy'n bwysig i weithrediad cywir celloedd niwron yr ymennydd. Mae'r syndrom yn cynhyrchu sbectrwm o anawsterau dysgu o rai lled ysgafn i broblemau difrifol iawn. Mae lleoliad y genyn sy'n gyfrifol am y syndrom wedi ei ddarganfod, ond nid oes triniaeth ar hyn o bryd.

Er mwyn datblygu triniaeth credir bod rhaid atal cynhyrchiad dau brotein o'r enw LIMK1 a LIMK2, a dyma lle mae'r gwaith caled yn dechrau. Mae cannoedd o gemegion a allai atal LIMK1 a LIMK2 ond rhaid dewis y rhai sydd yn pasio nifer o brofion. Rhaid sicrhau bod y cemegyn ond yn gweithredu ar y proteinau cywir. Mae'n bwysig bod y cemegyn hefyd yn hydawdd mewn dŵr ac yn gallu gwrthsefyll ensymau o'r afu. Ymhlith gofynion eraill, rhaid bod y cemegyn yn gallu treiddio i'r ymennydd. Mae'n rhaid cynhyrchu pob cemegyn yn y labordy a'i brofi yn drylwyr, a hyd yn hyn nid yw'r cemegyn perffaith wedi ymddangos. Ond mae sawl un addawol a all arwain y ffordd at y driniaeth gyntaf i'r syndrom X Fregus ac efallai clefydau eraill.

*Rhys Morris*

# Ryseitiau Merch y Ddinas

*"Hud yr Hydref"*



## Lowri Haf Cooke



Dwn i ddim amdanoch chi ond mae fy hydref i wedi gwibio fel gwrach ar ei hysgub. Union flwyddyn yn ôl cafwyd 'clo bach' Calan Gaeaf a gyhoeddwyd ryw fymryn ar fyrder. Ond heb fusnesau ar agor, na bwytai i ddenu'r sylw, ces i gyfle i sawru'r hydref yn ei hanterth. Ond yn sgîl y brechu eleni, anochel fu dychweliad 'prysurdeb' bywyd. Diolch felly am liwiau'r dail ym mis Tachwedd.

Yn un peth, bydd y goeden cwins melyn yn galw arna i'n fuan i bigo'r ffrwythau i wneud jam a surop tymhorol – yr olaf ar gyfer diod a greais i y llynedd, sef coctel melynbinc rhagorol. Cyfunwch un mesur jin gyda'r un faint o surop (ffrwythau cwins wedi'u chwarteru, a'u berwi'n ysgafn am awr mewn dŵr gyda siwgwr); cyfunwch â gwasgiad da o sudd grawnffrwyth pinc a 'shigwdad' o Bitters Angostura. Anfarwol!

Dwi'n sylwi bod caffis a bwytai'r ddinas hefyd yn eu helfen wrth ddathlu'r hydref, gyda'u pwyslais ar lysiau'r pridd a ffrwythau'r tymor. Mae pwmpenni ym mhobman, cawl corbwmpen ar sawl bwydlen, a llond y lle wedi'u pigo o gaeau'r fro. Er, wedi dweud hynny, cawl seleriac a chloron sydd ar gynnig ym mwyty Tom Simmons, Pontcanna. Ond yn *Hard Lines*, Treganna - *diner* llawn seigiau Americanaidd – mae tacos blas pwmpen a chaws glas Stilton, a chlasur o bwdin gŵyl *Thanksgiving – Pumpkin Pie*.

Ar gyfer dathliad pen-blwydd fy chwiorydd ar ddiwedd Medi cawsom groeso ym mwyty'r *Heathcock* yn Llandaf. Cymro Cymraeg sy'n cynorthwyo yn y gegin ers meitin, sef y cogydd Rhodri Davies o Benarth. Bu'n gweithio ym maes addysg am rai blynyddoedd cyn arallgyfeirio'n llwyr i'r byd bwyd. Ac wedi bwrw'i brentisiaeth yn y *Potted Pig* a *Heaney's* (ymysg eraill) mae e'n cydweithio â'r *Chef* David Killick ers tro.

Fel brawd-fwyty i dafarn fwyd yr *Hare and Hounds*, Aberthin, ceir pwyslais yno ar flasau Bro Morgannwg. A serch y lleoliadau gwahanol yr un naws a gynhelir, diolch i'r cyffyrddiadau chwaethus tymhorol. Pwmpenni bach gwynion a addurnai'r byrddau, ac ar y silffoedd, jins cartref lliw rhuddem. Bu'n rhaid blasu'r jin mefus am ffarwél bach hafaidd, tra aeth fy chwiorydd am y J a T mwyar duon. Ac fel tamaid i aros pryd, surdoes cartref – y gorau yng Nghaerdydd! – yn llawn swigod a daioni blawd rhug. Yna dau blatiad bychan; risotto cranc i gynhesu'r galon, a'r macrell a marchruddugl – cyfuniad gwych sydd wastad yn taro'r brig.

Yn wobr fel prif gwrs rhannodd yr efeilliaid bei crwst pwff o stecen eidion a chwrw Morgannwg. Yna cyrhaeddodd desgyl oren hen-ffasiwn y bwrdd; bu sawl ochenaid ar ddadorchuddiad y caead! Yno'n ffrwtian ers saith awr roedd ysgwydd cig oen – o fferm Torgelli, Llanhari, i fod yn fanwl. Bois bach, sôn am wledd – i'r ffroenau ac i'r llygaid. A blas anhygoel â chabaits *Hispi* a thatws *Confit*. Yn goron ar y cyfan, pwdin piws rhwng y pedwar ohonom; *soufflé* mwyar mor ysgafn â phluen.

Hedfanodd mis cyfan ers dathliad mor ddiddan, ond mae'r blasau'r un mor fyw yn y cof. Ai gwrachyddiaeth sydd i gyfri am y fath hud a lledrith – ynteu ai dewin sydd yn nghegin yr *Heathcock*?

***Heathcock*, 58-60 Stryd y Bont, Llandaf CF5 2EN; 02921 152290**

***Bwytai Cymru* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99**

---


**CYMRODORION CAERDYDD**

Sefydlwyd 1885

***Darlith Goffa'r Athro John Gwynfor Jones***

'Y bugail sydd wedi mynu cynnal y cyfarfod nos Fercher yn iaith y Saxon': newid iaith yng nghapeli Cymraeg Caerdydd, 1850-1914

Cyflwyniad ar Zoom gan Dr Dylan Foster Evans

Nos Wener 3 Rhagfyr 7.30 y.h.

I ymaelodi am y flwyddyn (£10) neu i sicrhau'r ddolen Zoom ar gyfer y cyfarod hwn yn unig (£3) cysyllter â'r Ysgrifennydd Gwynn Matthews.
ebost: m.g.derwendeg@gmail.com
(ffôn: 029 20891802)

*Ni chyfyngir y ddarlith i aelodau yn unig*

# ADDYSG GYMRAEG – NIFEROEDD TERFYNOL ELENI

Er bod cyfanswm y ceisiadau am fynediad i addysg gynradd Gymraeg wedi cynyddu o 680 ym mis Ionawr i 702 erbyn dosbarthu llefydd ddiwedd mis Ebrill, mae'r sefyllfa yn y diwedd wedi gwaethygu yn hytrach na gwella fel sy'n arferol, gyda'r nifer yn cael eu derbyn yn disgyn i gyn lleied â 674, sef dros 100 yn llai na'r nifer uchaf erioed yn 2017, sef 778.

Ble mae'r colledion?

Mae pedair ysgol yn parhau yn llawn neu yn orlawn – Melin Gruffydd, Nant Caerau, Y Mynydd Bychan a'r Wern.

Mae pump bron yn llawn – Treganna (88/90) Pencae (28/30), Pen y Pîl (24/30), Bro Eirwg (52/60) a Hamadryad (51/60).

Mae pump tua thraean yn wag – Creigiau (20/30), Glan Ceubal (19/30), Gwaelod-y-garth (19/30), Pen-y-Groes (19/30) a'r Berllan Deg (40/60).

Mae tair yn hanner gwag – Glan Morfa (30/60), Coed y Gof (34/60) a Phwll Coch (34/60)

Does dim eisiau manylu ar y naw ysgol sy'n llawn neu yn agos at fod yn llawn. Dyw sefyllfa Glan Ceubal a Phen-y-Groes eleni ddim yn sylweddol wahanol i'r sefyllfa arferol; maent yn ysgolion ar eu twf a gellid disgwyl blwyddyn o ddiffyg twf yn achlysurol. Ond hanes Creigiau, Gwaelod-y-garth a'r Berllan Deg yw un o alw cyson am bob lle sy ar gael a phlant yn eu dalgylchoedd yn gorfod chwilio am le mewn ysgolion eraill.

Mae'r tair ysgol sy'n hanner gwag yn destun gofid. Mae Glan Morfa wedi bod yn tyfu'n gyson ers ei hagor yn 2005 a'r galw wedi gorfodi'r sir i roi adeilad newydd ysblennydd i dderbyn y plant ychwanegol. Pam y cwymp eleni? Roedd Pwll Coch yn ysgol dair ffrwd lawn lai na deng mlynedd yn ôl ond nawr mae ychydig dros hanner llawn, yn bur debyg am fod yr ysgolion cyfagos yn fwy deniadol. Mae Coed y Gof wedi dioddef er 1996 o gael hanner eu plant yn derbyn addysg mewn cabanau symudol ac mae angen pwyso ar y sir i wario ar wella'r adeiladau. Mae'r ysgol hefyd yn dioddef o'r ffaith bod hanner ei dalgylch yn anhygyrch ac yn golygu taith annerbyniol o Drelái i Bentrebaen.

Pam mae'r cyfanswm wedi disgyn cymaint? Un rheswm yw bod y garfan gyfan (Cymraeg a Saesneg) wedi lleihau. Er bod cyfanswm y plant Cymraeg wedi disgyn eto hyd at fis Medi 2020 roedd canran y plant a ddewisodd addysg Gymraeg wedi parhau i gynyddu. Dyw'r cyfanrif Saesneg ddim ar gael eto ac felly nid yw'n hysbys beth yw'r canrannau eleni.

Mae'n amlwg nad yw 2021 yn flwyddyn o orfoledd i addysg Gymraeg yn y brifddinas ac fe fydd yn anodd gwasgu am wella'r ddarpariaeth, er bod yr angen am helaethu Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Nant Caerau yn parhau, ynghyd â'r angen am adeiladau parhaol yn Ysgol Coed y Gof. Wrth gwrs, mae cyfanswm ceisiadau o 702 yn siomedig yng ngoleuni'r mynediad syfrdanol o 779 y llynedd ond rhaid cofio bod hyn yn digwydd pan fydd gostyngiad yn nifer y ceisiadau dros y sbectrwm, sef yn y sectorau Saesneg a Chymraeg. O'r deuddeg ysgol nad ydynt yn llawn eleni mewn saith ohonynt mae deg neu lai o lefydd gwag, sef Creigiau (10), Bro Eirwg (7), Pen y Pîl (5), Glan Ceubal (10), Hamadryad (9), Pen-y-Groes (9) a Phencae (1). Mae Ysgol Hamadryad ac Ysgol Pen-y-Groes yn ysgolion newydd yn eu cyfnod o dyfu ac mae'r rhifau yn galonogol. Does dim angen pryderu am sefyllfa'r pump arall lle mae'r cwymp yn ddealladwy mewn cyfnod o drai cyffredinol.

Fe all fod mwy o ofid am sefyllfa'r pum ysgol lle mae llefydd gwag rhwng 15 a 31. Mae dwy ysgol lle mae 15 o lefydd gwag sef Gwaelod-y-garth a'r Berllan Deg lle bu galw mawr am le yn y gorffennol; nid oes angen pryderu am eu sefyllfa hir dymor – daw adferiad yn fuan. Mae gan Bwll Coch 23 lle gwag ond mae ei chymdogion yn orlawn (Treganna) neu bron yn llawn (Hamadryad). Mae'r tair ysgol yn gwasanaethu pedwar o wardiau'r ddinas (Trebiwt, Grangetown, Treganna a Glanyrafon) lle mae llawer o dai newydd yn cael eu codi ym Melin Elái, Heol Dumballs a Phentre'r Campau; yn fuan bydd angen pob un o'r 210 lle sydd ar gael, er bod y galw eleni am 180 o lefydd .

Mae dwy ysgol sydd â 31 lle gwag yr un. Mae Glan Morfa mewn adeilad newydd hyfryd yn cystadlu ag ysgolion Saesneg mewn hen adeiladau ac ers pedair i bum mlynedd wedi methu derbyn ceisiadau gan tua 45 plentyn am y 30 lle yn yr hen adeilad. Fe lenwir y llefydd gweigion yn y dyfodol agos. Gwahanol yw sefyllfa Coed y Gof – ysgol ddwy ffrwd er 1995, yn meddu ar brif adeilad dros hanner can mlwydd oed a rhes o gabanau 'dros dro' sy wedi bod yno am fwy na phum mlynedd ar hugain. Cafodd Ysgol y Wern gabanau fel rhan o'r un cynllun ond cafodd y Wern wared arnynt fwy na phymtheng mlynedd yn ôl wrth ennill safle Ysgol Cefn Onn i gael y campws cyfan. Nid yw Ysgol Coed y Gof yn gyfleus i hanner ei dalgylch, sef ardal Trelái lle mae'r trigolion yn ceisio lle yn Ysgol Nant Caerau sy llawer yn nes atynt. Bydd Coed y Gof yn debyg o golli Radyr o'i dalgylch pan fydd ysgol newydd Plasdŵr yn agor y flwyddyn nesaf. Rhaid i bawb bryderu am ddyfodol Coed y Gof – ysgol hanesyddol fel un o'r pedair a sefydlwyd yn lle Ysgol Bryntaf ar ddechrau'r 1980au.

Nid wyf wedi ystyried sefyllfa'r 28 plentyn na chafodd le yn y pum ysgol orlawn. Bydd y sir yn sicr o gynnig lle mewn ysgolion cyfagos i'r rhai sy wedi methu yn ysgolion Melin Gruffydd, Treganna a Nant Caerau. Ni fydd mynd i Ysgol Coed y Gof yn plesio rhieni oedd yn ceisio mynediad i Ysgol Nant Caerau. Mae gan y sir gynllun i ehangu Ysgol Mynydd Bychan erbyn 2022 ac yn fodlon derbyn ffrwd ychwanegol yn yr adeilad presennol am flwyddyn lle y gellid cynnig lle i'r 7 oedd yn ceisio lle yno a'r 4 sy wedi methu yn y Wern. Ond roedd ymateb y rhieni yn wrthwynebus i gynllun y sir yn y ddwy ysgol sef Mynydd Bychan ac Allensbank ac nid yw'n hysbys eto beth fydd ymateb y sir i'r gwrthwynebiad.

*Michael Jones*

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Cymrodorion Caerdydd

Cynhaliodd Cymrodorion Caerdydd gyfarfod cyntaf tymor 2021/22 dros *Zoom* nos Wener 22 Hydref - dyddiad priodol iawn, fel y daw'n amlwg.

Mae hi'n draddodiad mai'r Llywydd newydd sydd yn annerch cyfarfod cyntaf y tymor a Llywydd tymor 2021/22 yw Bill Davies. Enynnodd teitl ei sgwrs gryn chwilfrydedd, sef 'Pam a Sut y Dihangodd yr Ysbïwr?'.

Yr ysbïwr oedd George Blake a gafodd ei ddedfrydu i 42 mlynedd o garchar (y tymor penodedig hwyaf erioed) am ysbïo ar ran yr Undeb Sofietaidd. Yn wreiddiol ysbïwr cyflogedig gan MI6 oedd Blake. Roedd mewn swydd ddiplomataidd yn Seoul ar ddechrau Rhyfel Corea yn y pumdegau, ac fe'i cymerwyd yn garcharor gan luoedd Comiwnyddol y Gogledd. Ond bu gweld y difrod a'r lladd a wnaed gan fomiau Prydain ac America yng Ngogledd Corea yn ddigon i beri iddo newid ei deyrngarwch a throi yn ysbïwr Sofietaidd.

Cafodd Blake ei ddal a'i gosbi yn 1961, a'i garcharu yng ngharchar Wormwood Scrubs, Llundain. Yn y carchar daeth yn gyfeillgar â dau heddychwr, Pat Pottle a Michael Randall, a llwyddasant, wedi eu rhyddhau o'r carchar, gyda chymorth cyn-garcharor arall, Sean Bourke, i gynllwynio ei ddihangiad o'r Scrubs ar noson 22 Hydref 1966 – union 55 mlynedd i ddyddiad ein cyfarfod!

Yr heddychwr Pat Pottle yw'r cyswllt Cymreig. Bu'n byw am gyfnod yn ardal Croesor a Llanfrothen, ac yn y cyfnod hwnnw sefydlodd Wasg Eryri. Argraffwr oedd o ran ei grefft. Bu hefyd yn ysgrifennydd personol i Bertrand Russell pan oedd yr athronydd yn byw ym Mhorthmadog, sef cynefin ein Llywydd. Nid oedd Pottle a'i gyd-gynllwynwyr yn cymeradwyo ysbïo Blake, ond cymhelliad dyngarol a'u harweiniodd i weithredu fel y gwnaethant. Pan gawsant hwy eu dwyn i gyfrif am hynny, yn groes i gyfarwyddyd y barnwr, cafodd y rheithgor y tri yn ddieuog!

Bu Blake farw ar 26 Rhagfyr 2020 yn Moscow yn 98 mlwydd oed. Mae'r hanes yn llawn antur, a hefyd yn codi sawl cwestiwn moesol. Cyflwyniad diddorol dros ben.



***Alwyn Evans,***
***Llywydd Cymrodorion Caerdydd, 2020-21***



***Bill Davies,***
***Llywydd Cymrodorion Caerdydd, 2021-22***

# Cymrodorion y Barri

***Noson Bontio i'r Dysgwyr***

Roedd Neuadd Palmerston, y Barri, yn llawn nos Fawrth, 19 Hydref, gyda nifer o wynebau newydd gan fod Mared Furnham, ein his-Lywydd, wedi denu myfyrwyr o'r dosbarthiadau Cymraeg drwy'r Fro i ymuno â ni. Noson 'reis a chips' oedd hi (chwedl Mared), gyda rhai yn gwylio'r gweithgareddau ar *Zoom* tra oedd y gweddill ohonom yno'n bresennol.

Roedd dwy ddysgwraig yn ein hannerch, y ddwy wedi dod at yr iaith fel oedolion ac wedi meistroli'r Gymraeg yn hynod o wych. Mae hi bob amser yn destun syndod i ni a gafodd y fraint o ddysgu'r iaith o'r crud sut y mae rhai yn mynd ati gyda chymaint o arddeliad i ddod yn 'siaradwyr newydd'.

Daw Janet Tabor o Gastell-nedd, ond mae hi bellach yn byw yn Gwenfô lle mae hi'n mynychu bore coffi i ddysgwyr bob bore Llun yn nghanolfan garddio'r pentre. Mae hi wedi gwirfoddoli yn llyfrgell y pentre ers chwe blynedd ac yn falch o gael cyfle i siarad yr iaith gyda phawb y daw ar eu traws. Roedd ei thad yn siarad yr iaith, a'i chymhelliad i ddysgu'r Gymraeg oedd i gael siarad ag e. Un o uchafbwyntiau'i bywyd oedd cael cyfle i ymweld â'r Wladfa Gymraeg ym Mhatagonia a chael ei swyno gan ymroddiad y gwladfawyr.

Mae Rhiannon Norfolk bellach yn diwtor Cymraeg yn y Barri, ac wedi darganfod bod tiwtora yn help i fireinio ei Chymraeg. Pan oedd hi'n blentyn deuai'r teulu o Loegr ar eu gwyliau i Gymru, a dyna a'i hysgogdd i fynd i Brifysgol Bangor a dechrau dysgu'r Gymraeg yno. Syrthiodd mewn cariad â chaneuon Bryn Fôn a'r band Calan. Wedi byw yn Lloegr am gyfnod dychwelodd i Gymru yn 2018 a dod yn ôl o ddifri at yr iaith. Mae Rhiannon yn gwneud gemwaith ac erbyn hyn y dysgu Lladin ar *Duolingo*!



***Janet Tabor***

***Rhiannon Norfolk***



# Merched y Wawr
# Y Felin

Cartwnydd a dylunydd proffesiynol yw Huw Aaron ac mae ei waith celf yn amlwg iawn ymysg llyfrau Cymraeg i blant. Dechreuodd ei yrfa artistig yn cyfrannu cartwnau i gylchgronau adnabyddus Saesneg sef *Private Eye*, *The Oldie*, *Readers' Digest* a'r *Spectator*, ynghyd â *Barn* wrth gwrs. Pleser oedd gwrando arno yn adrodd ei hanes ac yn trafod pwysigrwydd denu plant i ddarllen.

Daw Huw o Abertawe a thra'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Gŵyr, dwdlo lluniau doniol o'i athrawon oedd yn mynd â'i fryd ymhob gwers. Serch hynny, yn 21 oed daeth Huw yn gyfrifydd. Buan y sylweddolodd nad oedd hynny'n gweddu iddo. Un diwrnod, mewn cyfarfod hir a phwysig, pan ddylai fod yn canolbwyntio, gwelodd fod sgôp am gomedi. Lluniodd gartŵn a'i anfon at *Private Eye*. Cafodd hwnnw ei dderbyn a dyna gychwyn ar gyhoeddi cartwnau a gwneud yr hyn yr oedd wir yn ei fwynhau; rhoddodd y ffidil yn y to ar fod yn gyfrifydd. Ymhen pythefnos wedi iddo briodi Luned (hithau yn awdures ac arlunydd llyfrau plant) roedd y cyfrifydd yn gartwnydd.

Wrth i oes aur cylchgronau a chartwnau fynd heibio, datblygodd ei waith yn y Gymraeg. Gwaith Huw yw'r cymeriadau Cymraeg enwog sydd yn *Llyfr Hwyl y Lolfa* gan enwi ond un sef Gari Pêl (ydy'r enw'n canu cloch?) Creodd gomic, *Mellten*, er mwyn cyfresoli storïau cymeriadau arwrol adnabyddus o'n hanes a'n chwedloniaeth. Aeth ati wedyn i ddarlunio a chreu ei lyfrau ei hun. Gwelwyd cyfle i weithio ar y cyd â Luned i ffurfio gwasg o'r enw Cwmni Llyfrau Broga – mae llyfrau'r wasg yn gyfuniad da o storïau tyner a sensitif Luned yn ogystal â storïau anturiaethol doniol Huw ei hun (am fwystfilod erchyll a phenolau ac ati!).



Dangosodd lyfr cyntaf yn y gyfres sy'n cyflwyno gwybodaeth am enwogion ysbrydoledig Cymru sef Cranogwen, gyda llyfrau am Shirley Bassey a Gwen John i ddilyn. Llyfr i'r plant lleiaf yw *Nos Da,Tanwen a Twm* ac mae'r llyfr *Pam?* yn ddoniol iawn. Mae'r lluniau a'r storïau yn plethu'n gelfydd ac maent i gyd yn hynod o apelgar i blant (ac i oedolion!). Bydd y llyfrau hyn yn gwneud anrhegion Nadolig gwerth chweil. Diolch Huw am noson ddifyr dros ben.

Fis nesa, am 7.30 p.m. nos Iau, 18 Tachwedd yn Eglwys Fethodistaidd Kelston Road, byddwn yn croesawu Non Rhys o Tast Natur atom. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

*Mair Robins*

# Merched y Wawr
# Bro Radur

Ar nos Fercher, 6 Hydref, cawsom gwmni Casia Wiliam a enillodd Wobr Tir na n-Og eleni am lyfr i blant oedran cynradd.

Daw Casia, yn wreiddiol, o Ynys Môn. Pan oedd yn chwech oed, fe symudodd ei theulu i Nefyn. Aeth i Ysgol Botwnnog, ac wedyn treuliodd ddwy flynedd yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol oedd ei phynciau yn y brifysgol yn Aberystwyth, lle'r enillodd radd dosbarth cyntaf. Yn ystod ei chyfnod yn Aberystwyth deffrowyd yr awydd ynddi i hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg.

Wedi swydd haf ym Mhwllheli, daeth i Gaerdydd 'i weld beth oedd gan y ddinas i'w gynnig' iddi. Yn ystod y degawd a dreuliodd yng Nghaerdydd bu'n gyfieithydd gyda chwmni Testun, yn drefnydd gyda Llenyddiaeth Cymru, ac yn Swyddog y Wasg gydag S4C. Yna gweithiodd gydag elusen Oxfam, ac yn y swydd honno cafodd ymweld â Ghana.



Casia Wiliam a'i mab, Deri Siôn, ar draeth Llanddwyn

Wedi dychwelyd i Ogledd Cymru bum mlynedd yn ôl, a hithau erbyn hynny'n fam ac yn dal ar bob cyfle i lenydda, cafodd wahoddiad i fod yn Fardd Plant Cymru. Pan ddaeth y gwahoddiad, doedd amgylchiadau ddim yn ddelfrydol, meddai, ond gan fod derbyn gwahoddiad, yn hytrach na'i wrthod, yn ail natur iddi, derbyniodd y swydd. Cafodd brofiadau cofiadwy gyda'r plant, a dyna pryd y daeth y syniad o ysgrifennu nofel i blant yn adrodd hanes merch fach oedd yn hoff iawn o anifeiliaid ac yn byw mewn sw. Ymddangosodd *Sw Sara Mai* ar ddechrau'r clo cyntaf, ac roedd y llyfr yn llwyddiant ar unwaith. Erbyn hyn, mae dilyniant i'r gyfrol wedi cyrraedd y siopau, sef *Sara Mai a Lleidr y Neidr*.

Wedi gweithio i'r Pwyllgor Argyfwng Trychinebau, mae Casia ar fin dechrau yn ei swydd newydd yng Nghaernarfon gyda Datblygiadau Egni Gwledig (DEG). Cyn diwedd y cyfarfod, rhannodd dair cerdd a ddeilliodd o'i phrofiadau amrywiol, ac mae'r tair i'w gweld yn ei chyfrol *Eiliad ac Einioes* yn y gyfres *Tonfedd Heddiw*.


Diolchwyd i Casia am gyflwyniad diddorol a llawn asbri.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf, drwy gyfrwng *Zoom*, ar 1 Rhagfyr yng nghwmni Ysgol Bro Dinefwr a'u prosiect ynni gwyrdd.

*Gwen Emyr*

# Merched y Wawr Caerdydd

Aethom yn ôl ar *Zoom* ar gyfer ein cyfarfod fis Hydref, a hynny er mwyn gallu cael cwmni Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, a ddaeth yn syth atom ni o'i chyfarfod *Zoom* misol efo'i phanel plant a phobl ifanc! A hithau'n dod tuag at ddiwedd ei saith mlynedd fel Comisiynydd roedd yn dda cael ein hatgoffa o bwysigrwydd creiddiol hawliau plant a sicrhau ein bod yn gwrando ar leisiau plant.



Merch o'r Alban, o ardal Dunblane, yw Sally ond mae wedi ymgartrefu yng Nghymru. Mae wedi dysgu Cymraeg, mae'r teulu yn gwbwl ddwyieithog, ac mae hi wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg yn ei gwaith bob dydd fel Comisiynydd Plant oherwydd bod gan blant hawl i siarad efo hi yn eu hiaith gyntaf. Clywsom ganddi am gyfrifoldebau statudol Comisiynydd Plant fel pencampwraig annibynnol i blant Cymru. Mae ei hangerdd dros hawliau plant yn ddwfn a diffuant. Soniodd sut yr effeithiodd y pandemig ar ei rôl a'i gwaith, a chawsom flas ar rai o'r negeseuon a dderbyniodd gan blant ac ieuenctid. Roedd gwahaniaeth yn effaith y pandemig ar blant iau a phlant hŷn ac ieuenctid o ran hapusrwydd, unigrwydd a theimlo'n ddiogel, ac roedd hyn i'w weld yn glir ar y graffiau a ddangoswyd.

Er cynifer yr heriau, roedd tystiolaeth bod plant a phobl ifanc wedi dysgu sgiliau newydd ac wedi cael profiadau cadarnhaol drwy helpu eraill yn y gymuned. Gobaith Sally, yn wir ei hymgyrch, yw sicrhau y bydd hyn yn diffinio cwricwlwm, ffordd o ddysgu a'r dull o asesu plant y dyfodol. Mae hi'n ffyddiog y byddant, er gwaetha popeth, yn genhedlaeth gref. Roedd yn fraint i ni gael bod yng nghwmni merch mor ysbrydoledig a fydd ar ddiwedd ei thymor wedi sicrhau newidiadau er gwell i fywydau plant a phobl ifanc Cymru.

# Adnabod Aelodau Côr Meibion Taf

## Gethin Williams: aelod o'r Ail Denoriaid

**Beth ddaeth â ti i'r ardal hon (dalgylch y Côr)?**
Mab ffarm o Lanrhaeadr yn Nyffryn Clwyd. Taith bell lawr i'r coleg yng Nghaerdydd, ac wedi aros yma byth ers hynny! Dwi'n byw yn Llandaf gyda'm gwraig Gail a'r plant, Gruff a Cari. Dwi'n llawfeddyg colorectal yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd.

**Beth yw dy atgof cynharaf?**
Arogl a sŵn y moch ar y ffarm. Lyfli!

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**
Prysur, ffysi, caredig.

**Beth yw dy hoff le di yng Nghymru?**
Dyffryn 'clodfawr' Clwyd.

**Yn y byd?**
Ar ben unrhyw lethr sgio yn yr Alpau.

**Oes gennyt ti unrhyw arferion drwg?**
Methu rhoi'r peiriant golchi ymlaen!

**Beth sydd wir yn dân ar dy groen di?**
Baw cŵn.



**Beth am rannu rhywbeth gyda ni nad oes llawer o bobl yn ei wybod?**
Roedd Charles Evans (bron â bod y cyntaf i gyrraedd copa Everest) yn hen hen ewythr.

**Pwy yw'r person mwyaf nodedig gwrddest ti erioed?**
Rhys ab Owen.

**Beth fyddai dy bryd o fwyd delfrydol a gyda phwy y byddet ti'n hoffi rhannu'r pryd hwn?**
*Scallops*, stêc sirloin Cymreig, *syrup sponge* Mam. Gwin Bordeaux drud.
Gareth Edwards, Christian Barnard, Tudur Owen, Sharon Morgan.

**Pan nad wyt ti'n dysgu *repertoire* y Côr sut wyt ti'n mwynhau treulio dy amser hamdden?**
Rhedeg ar ôl y plant / y wraig ayyb. Cerdded y ci. Torri'r lawnt. Prynu gwin neis.

**Yn ystod y cyfnod clo pa raglenni teledu wyt ti wedi mwynhau eu gwylio?**
*Masterchef*, *The Bridge*, *Line of Duty*.

**Beth yw dy hoff lyfr? Pwy yw dy hoff awdur?**
Darllen *Private Eye* a chylchgronau llawfeddygol. Dw i ond yn darllen llyfrau ar wyliau; mwynhau cofiant Melvyn Bragg i Richard Burton.

**Pa un darn o gerddoriaeth fyddet ti'n ei ddewis i wrando arno ar ynys bellennig?**
Unrhyw albwm gan The Killers.

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**Thomas Capper, y Merthyr Anghofiedig**

Bu teyrnasiad llinach y Tuduriaid yn yr 16eg ganrif yn dyst i newidiadau pellgyrhaeddol yng Nghymru a Lloegr i bob math o gyfeiriadau, gan gynnwys byd crefydd. Bu'n gyfnod cythryblus yn grefyddol, a dweud y lleiaf, a'r cythrwfl hwnnw'n arwain cyn diwedd y ganrif at newid crefydd swyddogol y deyrnas o Gatholigiaeth i Brotestaniaeth.

O ddechreuadau'r ganrif ymlaen, gwelwyd y mudiad Protestannaidd yn magu nerth ar draws gogledd Ewrop, yn arbennig, ond ymlynu wrth y ffydd Gatholig a wnaeth Harri VIII (1491–1547). Yn wir, dyfarnwyd y teitl *Fidei Defensor* ('Amddiffynnydd y Ffydd') i Harri gan y Pab Leo X yn 1521 am draethawd yn ymosod ar ddaliadau'r Diwygiwr Protestannaidd, Martin Luther (1483–1546) – teitl sy'n parhau yn un o deitlau swyddogol brenhinoedd Lloegr (er yn cyfeirio bellach at Eglwys Loegr, wrth gwrs): dyna arwyddocâd y talfyriad 'F.D.' sydd i'w weld ar ddarnau arian.

Ond erbyn dechrau 1535 roedd Harri VIII wedi torri pob cysylltiad â'r Eglwys Gatholig Rufeinig ac wedi ei osod ei hun yn ben ar Eglwys Loegr. Nid rhesymau diwinyddol oedd asgwrn y gynnen rhwng Harri a'r Pab, ond rhai gwleidyddol. Fel sy'n ddigon hysbys, yr achos a arweiniodd at y torri â Rhufain oedd awydd Harri i ddiddymu ei briodas â Catrin o Aragón, ac amharodrwydd y Pab i ganiatáu hynny oherwydd dylanwad yr ymerawdwr Siarl V, nai Catrin.

Yr hyn a wnaeth Harri, felly, oedd ymwrthod ag awdurdod tymhorol y Pab a mynd ati i greu eglwys wladol annibynnol o dan ei lywodraeth ef fel pennaeth y wladwriaeth. Ond o ran ei ddaliadau diwinyddol personol, arhosodd Harri yn eithaf uniongred Gatholig hyd y diwedd.

Roedd yr ymddieithrio oddi wrth Eglwys Rufain yn fwy cymhleth ac amlochrog na sefyllfa bersonol a gwleidyddol Harri VIII yn unig. Gellid canfod amryw o resymau eraill a gyfrannodd at hynny yn sefyllfa wleidyddol, economaidd a diwylliannol y dydd. Fe'i porthwyd, er enghraifft, gan deimladau cenedlaetholgar Seisnig; a ffactor arall hollbwysig oedd y twf yn nifer y bobl a arddelai argyhoeddiadau Protestannaidd ac a oedd am hyrwyddo'r argyhoeddiadau hynny.

Roedd y twf hwn yn yr ymlyniad wrth Brotestaniaeth yn beth a boenai Harri'n gynyddol, a thua diwedd ei oes cafwyd adwaith cryf ganddo yn erbyn hynny. Yn 1539 pasiwyd Deddf y Chwe Erthygl, neu'r 'fflangell â chwe chortyn' fel y'i llysenwyd, a oedd yn mynnu cydymffurfiad â rhai o gredoau ac arferion sylfaenol Catholigiaeth.

Traws-sylweddiad – sef y gred fod y bara a'r gwin yn dod yn wir gorff a gwaed Crist wrth iddynt gael eu cysegru yn yr Offeren – oedd pwnc y gyntaf o'r chwe erthygl. Roedd y sawl a wadai hynny i'w gyfri'n heretig, a'r gosb oedd fforffedu ei holl eiddo a dioddef marwolaeth heretig, sef ei losgi.

Roedd troseddu yn erbyn y pum erthygl arall – rhai yn ymwneud â materion megis cyffesion i offeiriaid, priodasau offeiriaid, ac yn y blaen – yn cael ei gyfrif yn llai difrifol. Y gosb am droseddu yn erbyn y rheini oedd colli eich eiddo ar y troseddiad cyntaf ac yna dioddef marwolaeth ffelon, sef cael eich crogi, ar yr ail droseddiad.

Roedd y ddeddf yn boblogaidd gan lawer ac yn arddangos uniongrededd Catholig sylfaenol y brenin. Ni chafodd ei gweinyddu mor llym ag yr ofnai'r Protestaniaid, ond fe arweiniodd at losgi nifer o bobl, ac yn eu plith Thomas Capper yng Nghaerdydd yn 1542.

Ffigur niwlog yw Thomas Capper, y gŵr y gellir ei gyfrif efallai yn ferthyr Protestannaidd cyntaf Cymru. Y cwbl a wyddom amdano yw'r hyn a geir yng nghyfrifon beilïaid Caerdydd a'r Rhath am y flwyddyn ariannol 1542–3, lle y caniatawyd chwe swllt a deg ceiniog i feilïaid Caerdydd tuag at y gost o gadw Capper yn y ddalfa, sef ceiniog y dydd am y 130 diwrnod y bu yno, ynghyd â phedwar swllt a phedair ceiniog tuag at dreuliau ei losgi am heresi.

Ni wyddom fwy na hynny amdano, ond rhaid mai oherwydd ei wrthwynebiad i draws-sylweddiad y cafodd ei ferthyru, oherwydd dyna'r unig drosedd o dan Ddeddf y Chwe Erthygl a gosbwyd gan farwolaeth trwy losgi. Gellir tybio hefyd, a barnu oddi wrth hyd ei garchariad, y bu sawl ymgais ofer i'w berswadio i wadu ei gred Brotestannaidd.

Wrth drafod Thomas Capper, gwna Glanmor Williams awgrym diddorol, sef – er y gallai Capper, efallai, fod yn eithriad o unigolyn – ei bod yn bosibl fod yr awdurdodau wedi bwrw ymlaen i'w ferthyru er mwyn dychryn eraill yn y cylch a dueddai i'r un cyfeiriad crefyddol. Ac mae'r ffaith fod un o'r tri merthyr Protestannaidd yng Nghymru yn ystod teyrnasiad Mari, merch Harri VIII, hefyd yn dod o Gaerdydd yn rhoi cryfder pellach i awgrym Glanmor Williams y gallai fod nifer o bobl o dueddiadau Protestannaidd yng nghylch Caerdydd erbyn y 1540au,

Rawlyn (neu Rawlins) White oedd enw'r Protestant o Gaerdydd a ferthyrwyd yn ystod teyrnasiad Mari. Deuwn ar draws ei enw ef gyntaf yn yr un cofnodion ag y ceir enw Thomas Capper, sef cyfrifon beilïaid Caerdydd a'r Rhath am 1542–3. Dysgwn yno ei fod yn byw ger afon Taf yng nghanol Caerdydd, yng nghyffiniau Heol y Cei, a bod ganddo fferm bysgota o

bump o rwydi sefydlog ar aber afon Taf ac ar hyd yr arfordir i'r dwyrain, i gyfeiriad afon Rhymni. Mae'n debyg iddo gael ei eni tua 1495 ac iddo weithio fel pysgotwr yng Nghaerdydd o tua 1535 ymlaen.

Llosgwyd Rawlyn White yng nghanol Caerdydd yn 1555 (neu 1556) – o bosibl yn yr Heol Fawr ger yr agoriad i Heol yr Eglwys. Mae cofeb i nodi hynny yn siop adrannol 'House of Fraser' yn Heol Eglwys Fair. Yn 1679 merthyrwyd dau offeiriad Catholig yng Nghaerdydd, sef Philip Evans a John Lloyd. Fe'u coffeir ar wal adeilad banc y NatWest ar gornel Heol Richmond a Heol y Crwys, ger man eu dienyddio. Ond hyd y gwn i, nid oes unrhyw gofeb yn unman i Thomas Capper, merthyr Protestannaidd cyntaf Cymru.

## MAS O'R DRÂR O'R DIWEDD!!!!!!

**Hannah Roberts**




Yn ystod y Clo geson ni ddicon o amser i itrech ar natur. Hales i dipyn o amser yn gwylio'r pilipala – 'y bow tei ar wddf yr awel', sy'n mynd trwy dri newidiad yn ystod ei fywyd byr. Wel, ryw naw mlynedd yn ôl, fe geso i ryw 'fetamorffosis' – mynd i'r gwely un nosweth yn berson weddol normal, a dihuno lan dannoeth fel bardd!!!!! – a na, 'dyn ni ddim cweit yn bobol normal. Os gwelwch chi rywun m'wn caffi ne' dafarn yn ishte fanna yn cownto ar ei fysedd – bardd sy 'na garantîd!! Cownto sillafe mae e, saith ar gyfer englyn, yr un peth i gywydd, a lan i ddeg i hir a thoddaid . 'Na pam geson ni ddeg bys siŵr o fod, falle o'dd Duw yn cynganeddu!!! Diolch bod dim mesur sy' ishe mwy na deg sill!!!!

Fe ddechries i farddoni drwy gystadlu yn yr eisteddfote di-ri 'ma sy'n ffenomenon flynyddol yn ein gwlad fach ni. Erbyn hyn ma 'da fi un-ar-ucen o gadeire (bach) am gerddi, wedi'u hennill rhwng 2011 a 2019, a saith o'r rheiny yn 2015, nes bod y cylchgrawn *Steddfota*'n cynnwys y pennawd 'O Gadair i Gadair'!!!!!!! Ma un ne' ddou 'steddfod yn rhoi cater FAWR – dw i ddim 'di llwyddo ca'l un o'r rheiny eto, ond dw i wedi meddwl whilo saer i fwrw rhain i gyd miwn i un i fi ga'l 'y nymuniad!!!!!

Wel, yn ystod y Clo, dyma benderfynu yn gynta' droi'r cerddi yn llyfr, yn lle eu bod nhw'n ishte yn y drâr; ac yn ail, bod yr elw yn mynd at Gymorth Cristnogol gan fod y mudiad yn dathlu 75 mlyned o fodolaeth eleni. Dyma un o fendithion y cyfnod rhyfedd yma, ei fod wedi esgor ar gymaint o waith creadigol ar hyd a lled y byd.

Creu'r llyfr 'ma yw'r peth agosa' alla i feddwl amdano at eni plentyn!! Cymerodd naw mis i'w gasglu at ei gilydd. 'Ma ffrwyth – wel yn rhannol – naw mlynedd o waith ynddo fe.

Yn ystod 'Steddfod yr Urdd eleni fe wetws y Prif Lenor ei bod hi'n hyfforddi i fod yn fydwraig, a bod hynny'n dod â'r ddou beth yn deidi at ei gilydd – 'ma hi'n gweld mamau'n esgor ar fabis, a hithe'n esgor ar lenyddiaeth.





Enw fy nghyfrol i yw *Cerddi'r Cadeirie Bach*, sef adran gynta'r llyfr. Ffrwyth cystadleuthe Cymdeithas Eisteddfode Cymru yw y rheiny. Nawr ma' pryddeste cadeiriol di-ri y Genedlaethol wedi ymddangos mewn llyfre – ife dyma'r tro cynta i gerddi cadeiriol yr eisteddfote bach ga'l eu casglu mewn llyfr 'sgwn i ? Ma 'na chwe adran arall, a llawer o'r rhain wedi bod yn fuddugol hefyd: Telynegion, Sonedau, Englynion, I Ffrindie, Cerddi'r Clo ac adran y Nadolig.

Present 'Dolig ?!!!!

*Llongyfarchiadau cynnes iawn i Hannah, un o golofnwyr cyson Y Dinesydd, ar gyhoeddi ei chyfrol o gerddi. Cofiwch fod yr elw o'i chyhoeddi yn mynd at gefnogi gwaith dyngarol Cymorth Cristnogol.*

Hannah Roberts, *Cerddi'r Cadeirie Bach*, £9.99. Ar gael yn eich siop lyfrau leol neu, os cewch anhawster, oddi wrth yr awdur, ebost: tanymarian2@btinternet.com



*Marlyn Samuel ar ymweliad â siop Cant a Mil ym Mynydd Bychan yn ddiweddar i lofnodi copïau o'i nofel newydd, Pum Diwrnod a Phriodas.*

# Gwylio’r Geiniog



## Y Gyllideb

## Huw Aled Accountants

Cyhoeddodd y Canghellor, Rishi Sunak, ei Gyllideb ar 27 Hydref 2021. Dyma rai o'r prif gyhoeddiadau ar gyfer unigolion:

1. Does dim newid i gyfraddau treth incwm, na chwaith lwfansau personol ar gyfer treth incwm, treth etifeddiaeth a threth ar eiddo.
2. Mae disgwyl i chwyddiant gyrraedd 4-5% yn 2022 felly bydd costau pawb yn codi dros y flwyddyn nesaf.
3. Os bydd chwyddiant yn parhau i godi, efallai y bydd Banc Lloegr yn codi cyfraddau llog. Os oes gennych forgais cyfradd llog amrywiol, ystyriwch newid i forgais lle mae'r gyfradd llog wedi'i chytuno am dymor penodol (*fixed rate term*) er mwyn osgoi effaith tymor byr unrhyw gynnydd yng nghyfraddau llog y wlad.
4. Mae'r Llywodraeth yn mynd i newid sut mae unigolion hunangyflogedig a phartneriaethau yn cael eu trethi o 2024 ymlaen os yw diwedd eu blwyddyn ariannol yn wahanol i 31 Mawrth neu 5 Ebrill. Gall hyn arwain at fil treth uwch na'r disgwyl yn 2023-4. Cysylltwch os ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn effeithio arnoch
5. Os ydych chi'n gweithio yn rhan-amser ac yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwch yn gallu cadw canran uwch o'r budd-dal o fis nesaf ymlaen. Gall hyn olygu y byddwch yn cadw dros £1,000 yn fwy o fudd-dal yn flynyddol.
6. Bydd newidiadau i ganllawiau treth alcohol o 2023 ymlaen. Yn fras, bydd y diodydd alcohol cryfaf yn cael eu trethi yn drymach ond bydd treth alcohol ar winoedd pefriog a seidr ffrwythau yn gostwng. Iechyd da!

**Cwestiynau Huw ac Aled:** *Gan fod y Gyllideb wedi cael ei chyhoeddi wythnos cyn cynhadledd COP26, oedd yna fesurau penodol i fynd i'r afael â chynhesu byd-eang?*

Roedd nifer yn disgwyl y byddai'r Canghellor yn manteisio ar y cyfle i gyhoeddi nifer o fesurau 'gwyrdd' i geisio annog gwledydd eraill i gyhoeddi mesurau tebyg.

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno buddsoddiad newydd trwy 'NS&I', sef Bond Cynilo Gwyrdd sy'n cynnig enillion blynyddol o 0.65% tra bod Tâl Teithwyr Awyr yn cael ei gynyddu ar gyfer hediadau pell.

Ond, bydd toriad yn y Tâl Teithwyr Awyr ar gyfer hediadau o fewn y Deyrnas Unedig tra bod y cynnydd disgwyliedig mewn treth tanwydd wedi cael ei ddiddymu gan fod cost tanwydd eisoes yn uchel.

Amser a ddengys a fydd mesurau ychwanegol yn cael eu cyflwyno yn sgîl cynhadledd COP26.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar brynhawn Llun, 18 Hydref, daeth cynulleidfa dda i Gapel Bethel. Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan ein Llywydd, Falmai Griffiths, a estynnodd groeso arbennig am mai dyma ein cyfarfod cyntaf ers y clo mawr, a phawb yn falch o’r cyfle i gymdeithasu unwaith eto.

Wedi ychydig o drafodion busnes cyflwynodd ein Llywydd y gŵr gwadd am y prynhawn, sef Lyn Davies - un oedd yn wreiddiol o Ynys Forgan, Cwm Tawe, ond a oedd bellach yn byw yn Rhiwbeina. Testun ei sgwrs oedd ‘Coelion y Colier’, a thynnodd ar ei brofiadau fel aelod o staff Adran Traddodiadau Llafar a Thafodieithoedd, Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Roedd y testun yn un hynod ddifyr am fod gan gynifer o’r gynulleidfa, fel Lyn ei hun, gysylltiadau teuluol cryf â bywyd a gwaith y colier. Cafodd Lyn y fraint o gydweithio â rhai o fawrion yr Amgueddfa, gan gynnwys Iorwerth Peate, Roy Saer a Vincent Phillips.



Drwy gyfrwng tapiau sain clywyd tafodiaith a ieithwedd gyhyrog gwŷr a gwragedd o’r meysydd glo o’r De a’r Gogledd. Rhoddodd Lyn enghreifftiau o eirfa’r glowyr sydd bellach yn rhan o iaith Cymru gyfan, ynghyd ag ofergoelion a oedd yn effeithio ar ddiwrnod gwaith y colier, ac yn pennu a gâi weithio neu ginio ai peidio!

Diolchodd ein Llywydd i Lyn am brynhawn hynod ddiddorol, ac atgoffodd bawb am ein cyfarfod nesaf, am 7:30 p.m., nos Iau, 15 Tachwedd. Y siaradwr ym mis Tachwedd fydd ein Llywydd Anrhydeddus, Mr Gwilym Roberts.

# Yn 'Mentro' tua'r Nadolig...

Wedi hanner tymor prysur, bydd golygon pawb bellach yn troi at y Nadolig! Mae Siôn Corn yn ffrind agos iawn i Fenter Caerdydd felly cadwch lygad ar ein gwefan ar gyfer newyddion cyffrous am y groto rhithiol a'r gwasanaeth llythyrau arbennig!

O nawr tan y Nadolig, bydd digon o weithgareddau i gadw aelodau iau'r teulu yn hapus wrth i'r clybiau dawns a drama barhau, yn ogystal â'r gwersi Sbaeneg. Fantástico! Cofiwch hefyd am y sesiynau *Mami Heini* i famau beichiog, *Bygi Heini* i rieni newydd ac *Amser Stori*. Draw yn y Barri, bydd sesiynau newydd *Deffro'r Synhwyrau* i fabanod yn boblogaidd iawn.

Mae calendr yr oedolion hefyd yn llawn dop o weithgareddau amrywiol.

O nos Lun, 8 Tachwedd, Dr Euryn Roberts fydd yn olrhain hanes cestyll Gogledd Cymru yn ein cwrs hanes diweddaraf. Dan sylw bydd cadarnleoedd y tywysogion Cymreig, cestyll Edward I a hynt a helynt rhai o'r cestyll hyn ar ôl cyfnod Glyndŵr.

Bydd Kelly Lewis o Neal's Yard yn cynnig sesiynau pampro ar *Zoom*, nos Wener, 12 Tachwedd a nos Sul, 21 Tachwedd. Cyfle gwych i ymlacio – a phrynu anrhegion Nadolig!

Byddwn ni'n croesawu *Adam yn yr Ardd* yn ôl nos Iau, 11 Tachwedd, wrth i'r *Clwb Garddio* ddychwelyd am dymor arall o sesiynau misol. Bydd Adam yn cynnig cyngor tymhorol defnyddiol felly ewch i'r wefan i ymaelodi!

Yr hanesydd Dr Simon Brooks fydd yn cyflwyno *Sgwrs y Mis*, nos Iau, 18 Tachwedd, wrth iddo fwrw




golwg ar hanes amlethnigrwydd ac amlddiwylliannedd ym mywyd Cymraeg Caerdydd.

Dewch draw i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina, ar fore Llun (1, 15, 22 Tachwedd) i glywed cerddorion *Live Music Now* yn perfformio darnau amrywiol. A chofiwch am ein sesiynau ffitrwydd i'r rhai dros 75 oed yng Ngerddi Soffia, a fydd bellach yn cael eu cynnal bob yn ail wythnos! Sesiwn nesaf, 12 Tachwedd.

Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau, ewch i: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru neu'r cyfryngau cymdeithasol. Neu cysylltwch: post@mentercaerdydd.cymru / 2068 9888.

## DIGWYDDIADUR TACHWEDD

**Sadwrn, 6 Tachwedd**
Mae'r Clwb Gwylio Adar yn cyfarfod ar fore Sadwrn cyntaf pob mis. Am fanylion ynghylch amser a lleoliad, cysylltwch â Gwilym Dafydd (eirianagwilym@gmail.com; trydar @GwilymDafydd). Croeso cynnes.

**Iau, 11 Tachwedd**
Cylch Cadwgan. Bydd Rhys Dafis, Ysgrifennydd Barddas, yn siarad am ei ddosbarthiadau barddoniaeth. Am 7.30 p.m. trwy gyfrwng *Zoom*. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys Roberts (groberts@btinternet.com).

**Sul, 14 Tachwedd**
Ymunwch â ffrindiau CRICC yng nghlwb rygbi y Cwins, Maes Diamond, Yr Eglwys Newydd, o 1.00 p.m. ymlaen, i fwynhau'r prynhawn yn gwylio gêm rygbi rhwng Cymru a Fiji. C.G. 15:15. Gemau / adloniant i'r plant y tu allan (yn ddibynnol ar y tywydd).

**Mawrth, 16 Tachwedd**
Seminar Ymchwil Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Bydd Ianto Gruffydd yn cyflwyno papur ar y testun 'Effeithiau adfer iaith ar amrywio ieithyddol Cymraeg Caerdydd' yn rhithwir am 4.00 p.m. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â cymraeg@caerdydd.ac.uk

**Iau, 18 Tachwedd**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Simon Brooks ar y testun 'Amlethnigrwydd ym mywyd Cymraeg Caerdydd'. Am 7.30 p.m. trwy gyfrwng *Zoom*. Am ddim. Am fanylion pellach, cysylltwch â Rachel Matthews. (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 19 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Holi Megan Angharad Hunter, enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021, am ei nofel arobryn, *tu ôl i'r awyr.* Am 7.00 p.m. trwy gyfrwng *Zoom*. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Iau, 25 Tachwedd**
Cynhelir Cylch Cinio Nadolig Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Cinio blasus. Y gŵr gwadd fydd y cerddor enwog, Mr Euros Rhys. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Rowenna E. Thomas (07811-802845 neu rowennat@gmail.com).

**Mawrth, 30 Tachwedd**
Seminar Ymchwil Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Bydd Dr Elen Ifan yn cyflwyno papur ar y testun 'Cyfieithu'r diwylliant perfformio: geiriau caneuon dwyieithog Cwmni Cyhoeddi Gwynn' yn rhithwir am 1.00 p.m. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â cymraeg@caerdydd.ac.uk

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur**
**gweler manylion ar dud. 2**

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHEL, RHIWBEINA

**Oedfaon mis Hydref**

Yn ystod mis Hydref cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchg Robert Owen Griffiths a'r Parchg R. Alun Evans, ac ar ddau ddydd Sul cawsom gwmni ein Gweinidog, y Parchg Evan Morgan. Ar 10 Hydref braf oedd cael cyfle i ganu emynau diolchgarwch – er bod y mygydau yn amharu ar y sain. Diolch i Gwilym Roberts am drefnu ac am gyfeilio fel bob amser ar yr organ.

**Edrych ymlaen at fis Tachwedd**

Ym mis Tachwedd edrychwn ymlaen at gwmni Emlyn Davies, Helen Jones, Delwyn Siôn a Lona Roberts i arwain ein gwasanaethau.

**Cadw at reolau Covid**

Nid oes bellach angen ffonio i gadw lle ond gofynnwn i bawb wisgo mwgwd yn ystod y gwasanaeth ac i gadw at reolau Covid o fewn yr adeilad.

**Bore Coffi**

Ar 29 Tachwedd rydym yn trefnu Bore Coffi i godi arian at elusen *Mind*. Bydd adloniant gan Siân Francis yn ystod y bore.

Croeso cynnes i bawb.

## SALEM, TREGANNA

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Ellen Hughes a Gruff Roberts ar eu priodas yn Salem ar 23 Hydref.

**Adran Salem**

Mae Adran yr Urdd Salem wedi dechrau cwrdd unwaith eto – newyddion da i blant oed cynradd yr ardal! Croeso i chi gysylltu os hoffech ymuno. Cynhaliwyd noson hwyliog yn festri Salem ar 7 Hydref.

**Clwb Coffi**

Hyfryd yw gallu cwrdd unwaith eto wyneb yn wyneb, ac fe ddaeth y Clwb Coffi at ei gilydd fore Iau, 14 Hydref, am 11:00. Dewch draw i gael cwpaned/disgled a chwmni.

**Clwb Cerdded**

Treuliwyd bore Gwener 22 Hydref yn cerdded ar lwybrau da o gwmpas Cosmeston. Edrychwn ymlaen at nifer o droeon amrywiol yn ystod y misoedd nesaf.



*Ellen Hughes a Gruff Roberts ar ddydd eu priodas yn Salem, Treganna*

## EGLWYS DEWI SANT

**Bedydd**

Ddydd Sul, 24 Hydref, bedyddiwyd Steffan a Mali Edwards, mab a merch Nick a Ceri Edwards. Dymunwn bob bendith iddynt fel teulu.

**Diolchgarwch am y Cynhaeaf**

Gwisgwyd yr eglwys yn lliwgar iawn â blodau a ffrwythau ar gyfer Gŵyl Diolchgarwch am y Cynhaeaf, ddydd Sul 3 Hydref. Diolch i bawb a fu wrthi'n paratoi.

**Canu cynulleidfaol**

Yn ystod mis Hydref ailddechreuwyd canu yn yr eglwys – gan y côr a'r gynulleidfa. Bydd gofyn i aelodau'r gynulleidfa gadw gorchudd ar eu hwynebau wrth ganu. Gan nad yw pawb yn teimlo'n gyfforddus â chanu cynulleidfaol ar hyn o bryd bydd gwasanaethau 8.00 a.m. a 6.00 p.m. yn parhau i fod yn wasanaethau llafar yn unig. Hysbysir ymlaen llaw pa wasanaethau fydd yn cynnwys canu.

**Gofal ein Gwinllan**

Cafwyd dau gyflwyniad dros *Zoom* yn y gyfres bresennol sy'n trafod cyfraniad yr Eglwys Anglicanaidd i iaith a diwylliant Cymru. Ar 20 Hydref bu Dr Rhiannon Ifans yn trafod Carolau Plygain a Charolau Haf (canu rhydd cynganeddol), a bu Dr Rhidian Griffiths yn trafod Anglicaniaid a'r Emyn yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Nos Fercher, 17 Tachwedd, am 7.00 yr hwyr bydd Dr Ffion Mair Jones yn trafod Goronwy Owen a Morrisiad Môn, a bydd Gerald Morgan yn trafod Ieuan Fardd ac Edward Richard, Ystradmeurig. Am y manylion cofrestru cysyllter â https://bit.ly/£rEQeGc

**Coffi a Chlonc**

Diolch i Siân Eleri Thomas am gydlynu'r bore coffi rhithiol dros *Zoom* ar fore dydd Sadwrn 16 Hydref.

**Gwasanaethau yn yr eglwys**

Mae hi'n dal i fod yn ofynnol i hysbysu Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig, Marian Fairclough, o'ch bwriad i fynychu un o wasanaethau'r Sul cyn 4.00 p.m. y diwrnod blaenorol, drwy ebost faircloughmarian@gmail.com neu ffonio 20885151.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon (10:30 a.m. yn y capel / Ysgol Sul rithiol)**

**Tachwedd:**

7 - Delwyn Siôn (Cymundeb)
14 - Sian Meinir
21 - Sul yr Urdd (Ieuenctid yr Eglwys)
28 - Parchedig Lona Roberts

**Mis Cynhadledd fyd-eang y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, a Glasgow yn gartref COP26**

Ydy COP3 (*Protocol Kyoto*) a COP21 (C*ytundeb Paris)* yn gyfarwydd i rai ohonoch?

Bu trafod yn y wasg ac ar y cyfryngau, yn gadarnhaol ac yn ddilornus, ond bydd wedi codi proffil newid hinsawdd yn ein meddyliau.

Mae i Gymru le i dorchi llewys yn ôl asesiad BBC Cymru:-

Poblogaeth fel % o'r Deyrnas Gyfunol [DG] - 4.73%;

Allyriadau carbon o'i phrif ddiwydiannau – 18.8% cyfanswm y DG; o 25 safle yn unig.

Mae ardal Aberdaugleddau (pwerdy / purfa olew / canolfan LNG) ar frig rhestr y DG, a TATA ym Mhort Talbot yn ail!

Dilema rhwng *'economi a chyflogaeth' v 'cynhaliaeth a chynaliadwyaeth'*!

*''Rydym yn galw ar bawb, beth bynnag eu cred a'u barn, i ymdrechu i wrando ar gri'r ddaear a'r tlodion, ystyried eu hymddygiad ac addo gwneud aberth ystyrlon er mwyn y ddaear y mae Duw wedi ei rhoi i ni'* – cyd-ddatganiad gan arweinwyr 2.6 biliwn o Gristnogion y byd.

A Llywydd Undeb yr Annibynwyr yn galw am weithredu:

*'… 'rwy'n galw ar ein heglwysi … i droi at ynni glân ac adnewyddol i gynhesu eu hadeiladau, i blannu blodau a llwyni a choed wrth eu capeli lle bo'n addas, i ddewis teithio ar fysys a threnau cyhoeddus neu geir trydan a hybrid, i gefnogi mudiadau ac ymgyrchoedd sy'n gwarchod y ddaear, ac i ddatgan ein pryder am y bygythiad i'r blaned hardd hon i'n cynrychiolwyr gwleidyddol.'*

'*Gwnes addunedau fil* ...' [Morgan Rhys, *Caneuon Ffydd* 763] – ai '*dim llawar o gop*' tybed fydd y farn ar COP26 ar derfyn y cynadledda?!

## MINNY STREET

www.minny street.org
@MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchg Owain Llyr Evans

Mae Eglwys Minny Street yn parhau i ddilyn camau diogelwch cyson mewn oedfaon a chyfarfodydd, yn cynnwys diheintio, gwisgo mygydau, sylw i awyru ac annog aelodau i gadw pellter cymdeithasol. Nid yw hi bellach yn ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn mynychu oedfaon yn y capel. Gan nad yw pawb yn gallu dod i'r oedfaon yn y capel, mae modd dilyn yr addoliad ar fore Sul a'r cyfarfod ar fore Mercher ar *Zoom.*

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn ystod oedfaon bore a hwyr 7, 14, 21 Tachwedd. (Oedfa gynnar fydd oedfa bore Sul 14 Tachwedd.) Edrychwn ymlaen hefyd at gydaddoli dan arweiniad un o gyfeillion yr eglwys yn oedfaon 28 Tachwedd.

Cynhelir oedfa gymun fore Sul, 7 Tachwedd. Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod ar 7, 21 a 28 Tachwedd.

**Gweithgarwch y mis**

Yn dilyn eu cyfarfodydd llwyddiannus ym mis Hydref, bydd PIMS yn cyfarfod eto nos Fawrth, 9 Tachwedd a nos Fercher, 24 Tachwedd (19:30 – 20:30). Yng nghyfarfod MATH ar 10 ac 17 Tachwedd, bydd cyfle i fyfyrio, astudio a thrafod. Cawsom noson hynod ddifyr yng nghwmni Rachel Matthews, Menter Caerdydd, yn ddiweddar i agor rhaglen y Gymdeithas. Ar *Zoom* y bydd cyfarfodydd y Gymdeithas yn cael eu cynnal nos Fawrth, 2 Tachwedd, yng nghwmni John Gwilym Jones a Tudur Dylan ac eto ar 30 Tachwedd yng nghwmni Adam yn yr Ardd.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am Christine Wallis Evans (Parc Fictoria). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i phriod, Gareth Wallis, eu plant Catrin, Dafydd a'u teuluoedd ynghyd â'r teulu ehangach a'i chyfeillion niferus.

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Megan Lili Williams, merch Geraint a Steph (Yr Eglwys Newydd) a chwaer fach i Cadi Gwen. Pob dymuniad da i'r teulu.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cydymdeimlo**

Daeth cwmwl du arall dros Eglwys y Crwys ym marwolaeth Mrs Non Davies, Penarth; Non yn aelod ffyddlon a thriw, yn berson annwyl a chymwynasgar a seren ddisglair y Gymdeithas Ddrama. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr, ond mae'n cydymdeimlad mwyaf â Ceri ac Angharad a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli mam garedig a gofalus. Rydym yn meddwl amdanynt yn eu hiraeth.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch hyfryd gan yr Ysgol Sul gyda'r plant a'r ieuenctid yn gwneud eu gwaith yn wych. Diolch i Hannah Thomas am baratoi'r gwasanaeth ac i'r athrawon a'r rhieni am eu hyfforddi.

**Y Gymdeithas**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas dan gadeiryddiaeth Hannah Thomas. Cyflwynwyd yr Athro Sioned Davies, Athro Emerita yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, gan Anna Loh a fu'n cyd-weithio â hi ar y cynllun 'Cymraeg i Bawb'. 'A fo ben, bid bont' oedd testun yr anerchiad; stori Branwen o Ail Gainc y Mabinogi, ac yn sail i'r cyfan oedd y thema 'Arweinyddiaeth a Brenhiniaeth' a'u harwyddocâd i'n harweinwyr ni heddiw. Diolch yn fawr i'r Athro Sioned Davies am noson o fwyniant pur.

**Coffi ar Gamera**

Mae 'Coffi ar Gamera' yn parhau bob bore Mawrth, diolch i Cerian Angharad am y trefniant, ac ar bob yn ail nos Fercher yn ystod y mis ceir Myfyrdod o dan arweiniad y Gweinidog. Fel y dywedodd un o'r plant mewn un gwasanaeth – 'Diolch byth am *Zoom*!'

**Oedfaon mis Tachwedd**

Yn ystod mis Tachwedd byddwn yn croesawu'r Gweinidog atom ar y 7fed gyda'r oedfa foreol yn Oedfa Gymun. Ar y 14eg bydd y gwasanaeth boreol o dan arweiniad Mr Ion Thomas a'r oedfa hwyrol dan ofal y Parchg Gwilym Wyn Roberts. Y Gweinidog fydd gyda ni ar yr 21ain a gwasanaethir ar y 27ain gan y Parchg Robert Owen Griffiths. Mae'r un croeso yn parhau yn y Crwys.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT, YR EGLWYS NEWYDD

**Dathliad arbennig yr Offeren yn Gymraeg yn yr Eglwys Gadeiriol**

Bydd dathliad dwbl arbennig yn cael ei gynnal yn Eglwys Gadeiriol Dewi Sant ar 26 Tachwedd. Mae'r Cylch Catholig yn trefnu Offeren i ddathlu 80 mlynedd ers ei sefydlu, a hanner can mlynedd ers cychwyn yr Offeren Gymraeg wythnosol yn yr Archesgobaeth. Bydd yr Esgob Emeritws Edwin Regan yn llywyddu yn yr Offeren a bydd nifer o offeiriaid yn cyd-ddathlu gydag e.

Ychydig dros 50 mlynedd yn ôl, clywodd offeiriad ifanc blant bach yn clebran yn Gymraeg ar ôl y gwasanaeth yn eglwys Cadog Sant yn y Bontfaen. Wedi holi a dod i nabod teulu Harri a Lenna Pritchard Jones, penderfynodd y Tad Edwin Regan y dylen nhw ac eraill fod yn medru clywed yr Offeren yn Gymraeg. Felly, gyda help casét yn ei gar a pharodrwydd brwd i ymarfer gyda ffrindiau bob cyfle posib, dysgodd ddweud yr Offeren, a sefydlu Offeren wythnosol yn eglwys Cadog Sant. O Sul cyntaf Adfent 1971 cafodd Cymry Cymraeg ddathlu'r Offeren yn y Bontfaen am oddeutu 20 mlynedd cyn symud i eglwys Santes Fair, Pen-y-bont ar Ogwr, nes i'r Tad Regan adael pan gafodd ei enwi yn Esgob Wrecsam.

Daeth y Tad Ieuan Jones i lanw'r bwlch a symudodd yr Offeren i eglwys fach Y Galon Sanctaidd yn Llechwydd; yna buodd am gyfnod yn Llanedeyrn hyd nes iddi sefydlu yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn Eglwys Teilo Sant yn yr Eglwys Newydd. Bydd yr offeiriad ifanc gynt sydd bellach yn Esgob Emeritws Edwin Regan yn llywyddu yn yr Offeren arbennig y mis yma, hanner can mlynedd yn ddiweddarach! Diolchwn i Dduw amdano ac am yr holl offeiriaid eraill a barodd i iaith y nefoedd gael ei chlywed yn gyson mewn eglwys Gatholig yn esgobaeth Caerdydd.

Mae croeso cynnes i bawb i'r Offeren ar 26 Tachwedd am 6:00 o'r gloch, a bydd yr Archesgob hefyd yn bresennol. Bydd derbyniad wedyn yn y Gonglfaen (*Cornerstone*) ar Heol Siarl i lansio llyfr hanes Y Cylch Catholig, *Gwinllan a Roddwyd*, gan y diweddar Ioan Roberts, a gyhoeddir gan Y Lolfa.

.........................................

Ar Sul cyntaf y mis, 7 Tachwedd, am 4:30 p.m., bydd y Tad Gildas Parry yn dathlu'r Offeren ar *YouTube*. Yn wreiddiol o Ynys Môn, mae'r Tad Gildas yn aelod o urdd mynachaidd o'r enw'r Premonstratensiaid, neu'r 'Canoniaid Gwyn.' Ar ôl astudio Diwinyddiaeth ym Mangor bu'n gweithio yn Llundain nes iddo ymuno â'r urdd yn 2016. Cafodd ei ordeinio'n offeiriad Catholig ym mis Mehefin eleni, fel aelod o Briordy Sant Philip yn Chelmsford, swydd Essex.

Bydd Offeren fisol eglwys Teilo Sant ar ddydd Sul, 28 Tachwedd, am 4:30 p.m. gyda'r Tad Peter Davies yn dathlu. Croeso cynnes i ddysgwyr - mae llyfrynnau Offeren dwyieithog ar gael.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## EBENESER

**Llongyfarchiadau...**

... i Siôn O'Brien a ddyweddïodd ag Emily Viggers ar Ynys Llanddwyn yn ystod mis Awst. Pob dymuniad da iddyn nhw i'r dyfodol.

**Tlws**

Ar ddydd Sul, 24 Hydref, cawsom gwmni Siân Wyn Rees yn ein hoedfaon. Diolch am ei neges fore a phnawn – yn y bore, i fod yn fwy tebyg i hanes y wraig a ddyfalbarhaodd yn Efengyl Luc ac yn y pnawn i ni wastad fod yn barod i wasanaethu. Roedd Siân yn cynrychioli ymddiriedolwyr Cymdeithas y Beibl hefyd drwy gyflwyno Tlws Cadw Hanes Mari Jones yn Fyw i Arfon Jones am ei waith gyda'r Beibl.

**Ordeinio**


Wrth i benwythnos a Sadwrn olaf mis Hydref agosáu roedd cryn edrych ymlaen at wasanaeth ordeinio Gwilym Tudur yn Seion, Aberystwyth. Aeth criw i fyny i Aber ac roedd eraill yn gallu ymuno drwy gyfrwng *Zoom*. Mae Gwilym yn fab i'n Gweinidog, Alun, a'i daid, wrth gwrs, oedd y diweddar Parchg Ddr R Tudur Jones. Yn drydedd genhedlaeth o'r teulu i fynd i'r weinidogaeth dymunwn bob bendith iddo a'i wraig Alex i'r dyfodol mewn cyfnod mor heriol.

**Llanllanast**

Cynhaliwyd sesiwn gyntaf o weithgarwch plant Llanllanast am y tro cyntaf ers y clo yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd ar fore Sul cyntaf mis Hydref. Cafwyd llawer o sbort yn dysgu am hanes Ruth. Cynhelir y Llanllanast nesaf ar fore Sul 7 Tachwedd am 10.00. Mae'r sesiwn yn agored i deuluoedd a phlant cynradd.

**Angor**

Cynhelir cyfarfod Angor Grangetown bob pythefnos yng nghaffi *Lufkins*, Clare Road, Grangetown. Bydd y cyfarfodydd nesaf am 4:30 bnawn Sul y 7fed a'r 21ain o Dachwedd.



*Arfon Jones a Siân Wyn Rees*

## TABERNACL, YR AIS

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Mia Owen ar gael ei derbyn i'r Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol ar gyfer Llysgenhadon Ifanc 2021/2022 dan ambarél Chwaraeon Cymru.

**Anti Catrin**

Yn dilyn blynyddoedd maith o godi'n dawel bob bore Sul o'i sedd gefn a hebrwng y plant ifanc yn ddiffwdan i'w dosbarth Ysgol Sul, gofynnodd Anti Catrin am gael ei rhyddhau o'i dyletswyddau. Mynegodd Luned John air o werthfawrogiad ar ran cenedlaethau o blant. Cyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Hawys a Gwydion ar ran holl blant yr Ysgol Sul.

**Ramp newydd**

Ar ddechrau oedfa bore Sul cynhaliwyd seremoni fer i agor y ramp newydd o flaen y capel yn swyddogol. Helen Jones gafodd y fraint o dorri'r rhuban gan taw hi oedd wedi bod yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o'r cychwyn. Y farn unfrydol yw bod y ramp yn eistedd yn dwt yn ei le, gan edrych fel petai wedi bod yno erioed.

**Clwb Darllen**

Y gyfrol *Salt* gan Catrin Kean, awdures o Gaerdydd, oedd dewis y Clwb Darllen y tro hwn. Hanes teulu o ardal Bae Caerdydd a geir yn y llyfr. Mae'r stori wedi ei seilio ar fywydau hen nain a thaid yr awdures.

**Y Gymdeithas Pnawn Iau**

Ar ddiwedd mis Hydref fe ail-ddechreuodd y Gymdeithas Pnawn Iau â rhaglen fer ar y thema 'Diolchgarwch'. Un o'r gweithgareddau a drefnir yw cefnogi elusen *Samaritan's Purse: Operation Christmas Child*.

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Braf oedd cael clywed cyfraniad Einion Gruffudd i'r Gymdeithas Nos Fawrth. Ei destun oedd 'Clipiau o'r Archif Ddarlledu Genedlaethol' sydd wedi'i sefydlu yn Aberystwyth.

**Gair o ddiolch**

Mawr yw ein diolch i'r canlynol am sicrhau bod gwasanaeth bob bore Sul ym mis Hydref – Cerith Williams, Parchg Robin Samuel, Parchg Adrian Morgan, Parchg Hywel Davies a'r Parchg Sian Elin Thomas. Yn yr un modd rydym yn ddyledus i Dafydd Huw, Parchg Geraint Morse, Rhys ab Owen, Huw Roberts a'r Parchg Owain Llyr Evans am eu cyfraniadau yn yr oedfaon hwyrol.

## BETHEL, PENARTH

**Dymuno'n dda**

Anfonwn ein cariad at Hazel sy'n dal i brifio yn dilyn triniaeth mewn ysbyty. Yn yr un modd rydym yn croesawu pob newyddion da am Eirlys, yn enwedig pan fyddwn yn cael ei chwmni yn yr oedfa.

Roedd ein ffiol lawenydd yn gorlifo ar Sul, 3 Hydref, pan welsom Alun a Helen yn cerdded trwy ddrws Bethel am y tro cyntaf ers tro. Cymerwyd hyn yn arwydd bod salwch Alun yn gynyddol dan reolaeth. Dymunwn yn dda iawn iddo wrth iddo gryfhau dan ofal meddygon, ac i Helen.

**Ysgrifennydd Cyffredinol Bethel**

Yn wyneb ei salwch penderfynodd Alun roi'r gorau i'w swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol Bethel, swydd y mae wedi'i gweithredu ers blynyddoedd lawer, gydag urddas diymhongar ac effeithiolrwydd cywir a diffwdan. Mae dweud 'Diolch' yn gwbl, gwbl annigonol, ond cyflwynwn y cyfarchiad hwn yn ystyr yr hen ddywediad, 'dweud ychydig, awgrymu mwy'.

Oherwydd sefyllfa Alun, cododd y cwestiwn, 'Pwy ddaw yn ei le?' Daeth ein gwaredigaeth ym mherson Alwena. Diolchwn iddi yn gynnes iawn a dymunwn rwydd hynt ar hyd y ffordd.

**Gair o ddiolch**

Diolchwn i John ac Ed am gyflawni gwasanaeth tawel, pan fu bygythiad llanast wrth i weithwyr wneud gwaith trwsio ar adeilad Bethel.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchwn ein cyfeillion yn Y Tabernacl ar gyhoeddi rhifyn arbennig o'u cylchlythyr, *Teyrnged i Euryn Ogwen*. Mae'r rhifyn yn adlewyrchiad teilwng iawn o ddoniau gŵr mwyn a chyfaill cynnes.

**Themâu oedfaon mis Hydref**

Bu Neville yn arwain y gwasanaeth ar 3 Hydref. Cafwyd cyfleoedd i hoelio sylw ar ddau orchymym Iesu (Marc 12). Buom hefyd yn cyfeirio at Waldo gan nodi bod hanner can mlynedd ers ei farw. Rhoddwyd sylw i achlysur cyhoeddi llyfr diweddar Cynog Dafis, *Pantycelyn a'n Picil ni Heddiw.*

Bu Sul 10 Hydref yn achlysur cynnal Oedfa Ddiolchgarwch gyda'n Gweinidog.

Fe'n heriwyd ar Sul, 17 Hydref, gan ein Gweinidog i fyfyrio uwchben un o gwestiynau dwysaf y Testament Newydd, 'Pwy meddwch chwi ydwyf fi?' Dyma'r cwestiwn a osododd Iesu i'w ddisgyblion yn dilyn eu holi, 'Pwy y mae pobl yn dweud yw Mab y Dyn?' Gweler Mathew 16.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Gweddïo dros ysgolion**

Yn ddiweddar yn ein cwrdd gweddi buom yn gweddïo'n arbennig dros blant yr eglwys a'u gwahanol ysgolion. Mae angen gweddïo drostynt mewn oes sy'n gallu bod yn wrthwynebus i'r neges Gristnogol.

**Dathlu'r Cymun**

Ddechrau mis Hydref cawsom y llawenydd o ddathlu'r Cymun gyda'n gilydd, am y tro cyntaf ers cyn y cyfnod clo. Mae'n bosib bellach hefyd cael paned ar ddiwedd oedfa gan gadw'n ofalus at y rheolau diogelwch.

**Clybiau'r plant**

Yn ddiweddar mae clybiau'r plant a'r bobl ifanc wedi ailddechrau ar nos Wener yn adeilad yr eglwys, Harriet Street, Cathays.CF244BX. Cynhelir *Clwb Hapus Awr* i flynyddoedd 1-5 rhwng 6:00 a 7:00 yr hwyr, a'r *Clwb Ieuenctid* o 7:00 tan 9:00 p.m.

Brynhawn Gwener rhwng 1:00 a 2:30 o'r gloch cynhelir *Ribidires*, clwb i'r plant bach ynghyd â'u rhieni neu ofalwyr. Ceir amser i chwarae, canu a chlywed stori o'r Beibl, a chyfle i'r oedolion gael paned a sgwrs. Croeso cynnes i bawb.

**Gweinidogaeth y Sul**

Yn y bore mae ein Gweinidog, Emyr James, yn parhau i edrych ar rai o ddamhegion Iesu Grist. Yn y prynhawn mae Emyr newydd ddechrau ar astudiaeth o lyfr Daniel lle gwelwn enghraifft o rai yn byw mewn sefyllfa anodd a heriol iawn.

**Salwch**

Dymunwn wellhad buan i sawl un yn ein plith sy wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Cofiwn hefyd am y rhai sy heb fod yn ddigon da i fynychu'r oedfaon ers peth amser.

**Paned a Sgwrs**

Cawsom y pleser yn ddiweddar o groesawu Ann Morgan o Gaerfyrddin atom i'n cyfarfod i barhau gyda'r myfyrdod ar ddigwyddiadau'r Pasg cyntaf. Y tro hwn buom yn meddwl am Sadwrn y Pasg a'r tawelwch cyn digwyddiadau dramatig y Sul gydag atgyfodiad Iesu Grist o'r bedd, sef y prawf fod aberth Iesu Grist dros ein pechod yn dderbyniol gan Dduw.

# NEGES O AWSTRALIA

## Lowri Haf Cooke yn holi Andy Bell

*Mae Andy Bell, sy'n 63 oed ('er tua 27 yn fy mhen!'), yn ymgynghorydd darlledu a chyfathrebu wedi 40 mlynedd fel darlledwr, ac yn byw gyda'i gymar Alex ym mhrifddinas Awstralia, Canberra.*



**Un o ble ydych chi'n wreiddiol, a beth yw'ch cysylltiad â Chaerdydd?**

Swydd Gaerhirfryn, lle ganwyd Lloyd George hefyd! Bues yn byw yn y Rhath yn yr wythdegau cynnar tra'n gweithio i CBC/Darlledu Caerdydd – 'ro'n i'n byw mewn fflatiau ar heolydd Shirley a Marlborough. Yr eira mawr yn 1980 yw'r atgof sy'n dal i gydio. Fi oedd llais CBC yn oriau cynnar y diwrnod cyntaf – dydd Sadwrn os cofia'n iawn – yn darllen y newyddion a oedd yn rhestr hir o lefydd lle roedd bara a llaeth i'w cael – a minnau wedi cerdded o'r Rhath i West Canal Wharf yn fy *wellies* gwyrdd eisteddfodol! Dechrau cyfnod o wasanaethu'r ddinas trwy gynnig gwybodaeth angenrheidiol a ninnau'r unig orsaf radio leol ar y pryd. Bues i'n darlledu yn y ddwy iaith gyda chydweithwyr fel Vaughan Roderick, Siân Lloyd ac Ian Gwyn Hughes. CBC oedd fy *gig* proffesiynol cyntaf ar ôl astudio yng Ngholeg y Brifysgol Abertawe, lle trois i o fod yn ddysgwr yn Llundain i fod yn siaradwr rhugl yn y Gymraeg. Y cysylltiad personol Cymreig a Chymraeg? Teulu fy mam yn hannu o Swydd Amwythig ac roedd 'na Gymraeg mewn mannau o'i theulu hi.

**Ers pryd rydych chi'n byw yn Awstralia a beth rydych chi'n ei wneud yno?**

Symudais i Oz ym mlwyddyn y ddaucanmlwyddiant – 1988. Gweithio fel darlledwr/gohebydd i sianeli teledu fel WIN (Wollongong, NSW), 9, 10 a'r ABC. Wedi rhoi'r gorau i weithio llawn amser ers dwy flynedd ... gwneud tipyn o waith i adrannau'r llywodraethau a dal i ddarlledu fel gwirfoddolwr ar 1RPH, radio i'r deillion. Wedi byw yn Sydney, Perth, Adelaide, Wollongong, Melbourne a Canberra.

**Beth yw'r sefyllfa yn gyffredinol yno ar hyn o bryd?**

Mae Canberra wedi bod dan glo ers rhyw ddeufis ar ôl dianc rhag y feirws am flwyddyn a mwy. Mae'r ACT, Australian Capital Territory, sy'n cael ei lywodraethu ar wahân i NSW, wedi ailagor yn raddol ers canol mis Hydref. Ond mae llawer yn dibynnu ar y cynnydd yn y niferoedd yn yr ysbytai wrth i lefydd fel tafarndai, siopau a swyddfeydd ailagor.

**Ble roeddech chi pan darodd y pandemig, a sut wnaeth bywyd newid i chi yn ystod yr argyfwng?**

Roeddwn i a'm cymar yn symud tŷ a chreu cartref am y tro cyntaf! Ers hynny rydyn ni wedi symud tŷ eto – prynu y tro hwn – ac wedi ychwangu at ein teulu bach trwy brynu cath – *Prince* yw ei enw. Ar wahân i daith ddeuddydd i Adelaide i weithio mewn cynhadledd, nid wyf wedi gadael ardal Canberra o gwbl.

**Beth yw patrwm arferol eich diwrnod ar hyn o bryd?**

Aros gartref ar y cyfan! Rydyn ni'n cael mynd am dro am ddwy awr bob dydd ... felly cerdded amdani. Rwyf yn dal i ddarlledu unwaith neu ddwy'r wythnos o dan reolau llym yn y stiwdio. Rwyf hefyd wedi arwain ambell i *webinar* rhithiol o'm swyddfa yn y tŷ. Ffonio ffrindiau'n aml ... yn enwedig y sawl sydd dan gyfnod clo ym Melbourne ... cynnal cwis ar-lein wythnosol gyda chyfeillion ... cael gwersi ffidil trwy *Skype* ... darllen llawer, gwylio *Netflix* a *Clic* a dilyn fy nhimau – Western Bulldogs (AFL) a South Sydney (NRL) – wrth iddyn nhw gyrraedd y rowndiau terfynol. Un peth rwyf yn ei golli yw'r cyfle i ganu mewn côr – rwyf yn aelod o Gymdeithas Gorawl Canberra a chyn y clo fe gawson ni'r cyfle i ganu campwaith Brahms, *Ein Deutsches Requiem*, yn Neuadd Llewellyn – prif neuadd gyngerdd Canberra. Un peth arall sy'n fy nghadw fi i fynd yw garddio – llysiau ac ati. Gan ein bod ni'n byw mewn maestref fechan ar gyrion Canberra – 15 munud o daith o ganol y ddinas – a chyda hen ddigon o lwybrau yn y *bush*, mae delio â heriau'r oes heb fod yn rhy ddrwg.

**Beth rydych chi wedi'i ddysgu dros y flwyddyn a hanner diwethaf?**

Gwersi: canolbwyntio ar y pethe o fewn eich rheolaeth **A** gwerthfawrogi'r bobl anwyla yn eich bywyd yn ddyddiol. Mae popeth arall yn tyfu allan o'r ddau yna. Rwy'n gobeithio teithio yn ôl i Gymru eto ... ond dim o fewn y flwyddyn nesaf. 'Steddfod 2023? Y 'gwaith' da yw creu cartref a chadw hwnna'n gytûn a dedwydd yn ystod amseroedd hynod.

***Her darlledu yn ystod y pandemig.***



# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ym mis Hydref croesawyd nifer o aelodau newydd o blith Cymry Caerdydd i ymuno i wrando ar ddau siaradwr o wahanol gefndiroedd ar *Zoom*.

Ar 8 Hydref cyflwynodd Gwyneth Davies, Llanilltud Faerdref, hanes ei gyrfa ym myd teledu dros gyfnod o hanner can mlynedd. Bu'n gwasanaethu yn Adran Blant TWW a HTV, e.e. ar raglenni amrywiol fel *Miri Mawr, Ffalabalam, Cefn Gwlad*, a hefyd ar raglen newyddion *Y Dydd* ac amryw etholiadau, cyn troi i faes newydd yn Tinopolis, Llanelli.



Canolbwyntiodd ei sgwrs ar y cyfnod ymchwil ar gyfer rhaglen *Heno Aur* – dwy gyfres yn olrain hanes rhaglenni i ddathlu pen-blwydd *Heno*. Eglurodd fod angen ymchwil fanwl i gofnodi'r cyfnod hir o ddarlledu a didoli amodau cyfyngiadau hawlfraint. Ymhyfrydai mewn amrywiaeth eang o gysylltiadau ag enwogion – e.e. gweld cychwyn gyrfaoedd artistiaid ifanc fel Matthew Rhys, Ioan Gruffudd a Charlotte Church; dylanwad a chwmni enwogion fel T. Llew Jones, Philip Madoc, Elen Roger Jones a llu o enwogion eraill; a darllediadau corau a chantorion enwog o Gymru dros gyfnod hir. Bu'n hapus iawn yn ei gwaith – yn falch o godi bob bore i fwynhau pob dydd yn nghwmni ei chydweithwyr. Diolchwyd i Gwyneth am gyflwyniad arbennig o'i phrofiad.



Ar 22 Hydref, y Parchedig Tom Evans, Peniel, Caerfyrddin, oedd y gwestai. Fe'i ganwyd ym Metws Bledrws, Llanbed, a'i godi i'r weinidogaeth yng Ngholeg Abertawe, gan wasanaethu yn Bethania, Tymbl. Wedi cyfnod gyda Chymorth Cristnogol ac Adran Grefydd y BBC, bu'n darlithio yng Ngholeg y Drindod tan iddo ymddeol.

Seiliodd ei ddarlith ar y testun 'Chwalu'r Ffrâm', wedi iddo gael ei gyfareddu'n gynnar gan lyfr T.J.Morgan yn portreadu'r Parchedig R.G. Berry, Gwaelod-y-Garth, a'i dystiolaeth na ddylid cadw Crist mewn ffrâm ond gweithio yn eangach yn y gymdeithas. Cafodd brofiad o weinidogaeth a dylanwad John a Norah Morgans a'u gwaith dygn y tu allan i'r ffrâm ym Mhenrhys yn y Rhondda. Wedi ymddeol yn 2008, fe'i gwahoddwyd i fod yn gaplan gwirfoddol i Heddlu Dyfed-Powys, ymhlith wyth o gaplaniaid o wahanol grefyddau, ac yna yn arweinydd tîm.

Eglurodd mai gwaith caplan yw cefnogi'r cyhoedd ym mhob math o sefyllfaoedd erchyll a bod yn gefn cyson i'r heddlu (yn ysbrydol ac ymarferol) wrth gyflawni eu gwaith anodd a heriol. Cyflwynodd enghreifftiau manwl o'i brofiadau – e.e. ym Machynlleth adeg llofruddiaeth April Jones; adeg boddi plentyn yn yr afon yn Aberteifi; a marwolaeth teulu o bum plentyn a'u tad yn Llangamarch. Roedd yn amlwg bod ei wasanaeth diflino yn 'chwalu'r ffrâm' trwy gynnal yr heddweision a'r teuluoedd dros ddeg mlynedd o gaplaniaeth gwerthfawr!

Cyfarfodydd nesaf: 5 Tachwedd – Cwis gyda Gwenda ac Eleri Morgan; 19 Tachwedd – yng nghwmni Ioan Kidd. Os dymunwch ymuno â ni, cysylltwch ag aelwydhamdden@gmail.com

## DIGWYDDIADUR RHAGFYR

**Mercher, 1 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Bro Radur. Noson yng nghwmni Ysgol Bro Dinefwr yn trafod prosiect ynni gwyrdd, am 7.30 p.m. trwy gyfrwng *Zoom*. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029 -2061-5243).

**Gwener, 3 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd. Darlith Goffa'r Athro John Gwynfor Jones. Darlith gan Dr Dylan Foster Evans ar y testun '"Y bugail sydd wedi mynu cynnal y cyfarfod nos Fercher yn iaith y Saxon": newid iaith yng nghapeli Cymraeg Caerdydd, 1850–1914'. Am 7.30 p.m. trwy gyfrwng *Zoom*. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com).

**Sadwrn, 4 Rhagfyr**
Mae'r Clwb Gwylio Adar yn cyfarfod ar fore Sadwrn cyntaf pob mis. Am fanylion ynghylch amser a lleoliad, cysylltwch â Gwilym Dafydd (eirianagwilym@gmail.com; trydar @GwilymDafydd). Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 13 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Elinor Wyn Reynolds ar y testun '*Llyfr Bach Nadolig*: yr hwyl a'r her o greu cyfrol yn llawn ysbryd yr Ŵyl'. Am 7.30 p.m. trwy gyfrwng *Zoom*. Am ddim. Am fanylion pellach, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2

# Siaradwyr Cymraeg Newydd

*"Sylwch ar enw' newydd i'r golofn"*



## Gwilym Dafydd

**Gair o brofiad gan David Thomas, Dysgwr y Flwyddyn 2021:**

**Trapiau'r carped coch**

Ers i fi gael fy nghoroni fel Dysgwr y Flwyddyn 2021, rydw i wedi sylweddoli pa mor bwysig ydy'r wobr i bobl Cymru. Wedi'r cyhoeddiad, fe ges i gardiau, negeseuon ac e-byst oddi wrth bobl ledled Cymru i fy llongyfarch i am ennill y wobr. Roedd pob un yn syrpreis annisgwyl. Mae pobl Cymru mor gynnes, on'd ydyn nhw?

Mae pobl yr ardal hefyd mor falch o gael enillydd yn eu plith. Mae'r cymdogion a phentrefwyr fan hyn yn Nhalog wedi bod mor gefnogol. Dyma'r tro cyntaf erioed rydym ni wedi cael prosecco yng Nghlwb Clonc yn Neuadd y Pentref... am fraint!

Rydw i'n cael fy adnabod yn gyson pan rydw i'n mynd lawr i Gaerfyrddin i siopa. Mae'n codi cywilydd arnaf mewn ffordd, ond rydw i'n gwerthfawrogi'r sylwadau a gwenau pawb. Rhyw fath o seleb ydw i erbyn hyn, efallai?

Wel, peidiwch â mynd dros ben llestri...

Ro'n i wrth fy modd cael gwahoddiad i ymddangos ar raglen *Heno* S4C. Fel llawer o bobl Cymru, rydw i'n hoff iawn o'r rhaglen. Fe es i lawr i'r stiwdio yn Llanelli i siarad am y wobr. Sôn am brofiad brawychus...

Ro'n i mor nerfus i fod ar y teledu yn fyw, ond fe wnes i fy ngorau glas i ddangos agwedd cŵl am bopeth. Rydw i wedi bod ar sawl rhaglen S4C yn y gorffennol, gan gynnwys *Heno*, *Ffermio*, *Dan Do* a'r *Newyddion*.

Ers hynny mae fy Nghymraeg wedi dod ymlaen tipyn. Yn ogystal, roeddwn i wedi cwrdd â'r gyfwelwraig, Mari Grug, sawl gwaith. Mae Mari mor gyfeillgar a charedig. Wedi'r cyfan, doedd dim rhaid i fi boeni am gyfweliad byr o bum munud ar soffa enwog *Heno*, iawn? Dim trafferth! Beth oedd y broblem, te?

Pum munud ar soffa *Heno*, wedais i? Hmm.

Beth am dreulio'r rhaglen gyfan ar y soffa? Beth am roi sylwadau llygadog am bob eitem sy'n cael ei thrafod yn ystod y rhaglen? Dyma'r amser i gynhyrfu.

Roedd fy nghyfweliad yn eithaf syml – dim byd rhy gymhleth (diolch o galon, Mari a Rhodri!). Ond dechreuodd pethau gymhlethu pan roedd rhaid i fi drafod neu sylwi ar bob eitem arall ar y rhaglen. Doeddwn i ddim yn gwybod pa mor heriol ydy cadw gwên rewedig ar fy wyneb – rhywbeth sy'n anodd iawn i gadw lan am hanner awr.

Yn anffodus, roedd gwaeth ar y ffordd. Fel tro annisgwyl ar ddiwedd y stori, roedd y diwrnod hwnna yn Ddiwrnod Cenedlaethol Rhandiroedd. 'Oes *green fingers* gyda chi, David?', gofynnodd Mari (*spoiler alert*: does dim *green fingers* gyda fi o gwbl), cyn gofyn i fi beth oedd yn tyfu yn dda yn fy ngardd eleni.

Roedd fy meddwl yn hollol wag. Fe wnes i fwmian rhywbeth yn hollol wirion am flodau, yr un wên rewedig ar fy wyneb. Ro'n i mor hapus i glywed arwyddgan *Heno* yn tynnu'r rhaglen at ei therfyn.

Erbyn hyn rydw i wedi dod i edmygu yn fawr pobl sy'n gweithio yn y teledu. Maen nhw'n gwneud i bopeth edrych mor ddiymdrech a hwylus. *Spoiler alert* terfynol: dydy e ddim.

' *Strictly' here I come*, flwyddyn nesaf? Dydw i ddim yn credu!

**Clwb Gwylio Adar**




Roedd hi'n wlyb iawn ar fore Sadwrn, 2 Hydref. Doedd dim dewis ond gweithredu Cynllun B sef clonc a phaned yn yr *Hollybush*, Coryton. Fel y gwelwch yn y llun, diolch i Ian a Jan, Mike a Jan Creigiau ac Eirian am gadw cwmni. Gobeithio am gipolwg o'r haul ar fore Sadwrn, 6 Tachwedd a chyfle i fynd am dro i wylio adar.


**Clonc yn y Castell**

'Dyn ni wedi cael sawl clonc yn y Castell erbyn hyn ar



## Rhif: 218




### Ar Draws

6. '----- wyf mewn anial dir,
   Yn crwydro yma thraw' (WW) (7)
7. Y sant yn cefnu ar gant mewn torf (5)
9. Y noson hon bron yn oedrannus (3)
10. A yw cegin Tara yma? (9)
12. 'Yr lôn a'th geidw rhag pob drwg ,
    A ----- ----- ----- anfad;' (EP) (3,3,5)
15. Da…..da, rhan y pur yw cael maddeuant am ddim (8,3)
17. Mae anifail anwes Twm Coch yna (5,4)
19. 'Ond cariad pur sydd fel y -----
    Yn para tra bo dau' (3)
21. Afon rhyfedd iaith (5)
22. 'Gwnaethost fwy mewn un -----
    Nag a wnaethai'r byd o'r bron' (WW) (7)

### I Lawr

1. Nid ar ----- y mae aredig (5)
2. Yr awyr o bob cyfeiriad (3)
3. Hen iâr gall ar yn ail mewn tywydd gaeafol (4)
4. Sail eich teilwra (5,4)
5. Y teitl yw 'Deg namyn un yn cyrraedd y copa cyn ddechrau dydd' (7)
8. Gwneud tair gwaith cymaint a'r '*butler*' meddw (6)
11. '----- -----dros bechadur trist;
    Cyflawnwyd popeth- cododd Crist' (ER) (4,5)
13. Torri planc i gyrraedd y man uchaf (6)
14. Darn o gân bron troi'n broffwydol (7)
16. 'Ac yna un â'i wich yn groch
    Yng nghrafanc ddur y ----- coch' (IDH) (5)
18. Y penteulu yn codi mur i'r copa (4)
20. Poen cariad cyntaf yr hen ddinas (3)

**Enillydd Croesair Rhif 216**
**Buddug Roberts, Caerdydd**

**Atebion Croesair Rhif 216**

**Ar Draws:** 1. Dros y Mynydd Du 7. Plant 8. Gwe 9. Dal 10. Ysbrydoli 11. Arolwg 12. Tramwy 15. Gwyrddfaen 17. Ddoe 18.Nêr 19. Encil 21. Disgrifiadol

**I Lawr:** 1. D'allu di a'm gwna 2. Yna 3. Ystabl 4. Yn y dyffryn 5. Digio 6. Gegin y Gesail 7. Pilio 10. Yr Wyddgrug 13. Meddal 14. Caledi 16. Ymroi 20. Cri

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Rhagfyr 2021
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

---

ddydd Iau rhwng un a dau o'r gloch. Dau o'r ffyddloniaid yw Cathy a Sean ac yno hefyd ar 7 Hydref roedd Colin a'i gi, Sali. Mae Sali yno rhywle yn y llun!

**Yr Awr Hapus**

Fedrwn ni ddim sgwrsio ym mharc Llyfrgell yr Eglwys Newydd erbyn hyn! Ond mae'n dawel yn yr *Hollybush* rhwng amser brecwast a chinio cynnar felly 'dyn ni wedi cynnal dau glonc yno. Gwelir llun arall o'r *Hollybush*! Ar adegau eraill 'dyn ni'n dal i gwrdd ar *Zoom* am ddeg o'r gloch y bore. Mae'n anodd credu ond bydd Yr Awr Hapus yn 20 oed, 19 Tachwedd. On'd yw'r blynyddoedd yn hedfan!

**... ac i orffen ...**

Dwi wedi newid enw'r golofn hon. Wnaeth unrhywun sylwi? Dwi wedi newid 'Cwmni'r Dysgwyr' i ' Siaradwyr Cymraeg Newydd'. Beth yw eich barn chi am hyn? Rhowch wybod cyn 27 Tachwedd i eirianagwilym@gmail.com Diolch yn fawr!





# Cerdd fuddugol am Saethu ar Doriad Dydd

***Martin Huws yn ennill Cadair Eisteddfod y Rhondda am yr ail waith***

Martin Huws o Gaerdydd a enillodd Gadair Eisteddfod y Rhondda a gafodd ei chynnal yn rhithiol yn ddiweddar. Y gofynion oedd cerdd neu gasgliad o gerddi ar y mesurau rhydd neu gaeth heb fod yn fwy na 35 llinell ar y testun ‘Yfory’.

Dywedodd y beirniad, Tudur Dylan, fod 20 wedi cystadlu a bod neb yn ‘gwbwl ddi-glem’. ‘Yng ngherdd Ar Doriad Dydd mae ’na ddefnydd effeithiol o’r wers rydd gynganeddol’ meddai. ‘Mae’r bardd yn mynd â ni nôl i Fflandrys adeg y Rhyfel Byd Cynta ac mae milwr yn cofio ei ieuenctid pan oedd yn chwarae criced. Y wal lle roedd yn chwarae criced sy’n dod yn thema gref yn y gerdd. Mae’r bardd yn cymharu ergydion y bêl griced efo ergydion y gynnau. Mae’n dod nôl at y wal yn y diwedd, wal sy’n cynrychioli ei farwolaeth. Yn sicr, mae hon yn gerdd rymus ac wedi ei saernïo’n effeithiol tu hwnt ac mae’n llwyr deilwng o’r gadair eleni. Llongyfarchiadau mawr.’

Dywedodd Martin: ‘Yn y gerdd ’wy’n trial cyfleu meddyliau’r milwr y noson cyn y dienyddio. Mae yn ei gell gondemniedig ac yn gallu gweld y wal lle bydd yn cael ei saethu’n farw.

‘Mae hanes y Milwyr gafodd eu Saethu ar Doriad Dydd yn ddiddorol ac rwy’n casglu deunydd ar gyfer cyfrol.

‘Rhwng 1914 a 1918 cafodd mwy na 300 o filwyr gwledydd Prydain a’r Gymanwlad eu dienyddio am eu bod yn euog o droseddau fel llwfrdra ac encilio.

‘Erbyn hyn, mae’n amlwg nad oedd rhai milwyr yn gallu ymdopi ag amgylchiadau uffernol y llinell flaen ac wedi ffoi o’r frwydyr er gwaetha’r canlyniadau. Yr enw ar eu cyflwr heddi fyddai anhwylder straen wedi trawma neu PTSD. Os oedden nhw’n cael eu dedfrydu, fe fydden nhw’n cael eu clymu wrth bostyn a’u saethu’n farw, weithiau gan gydfilwyr o’r un platŵn.

‘Yn 2006 fe gafodd y milwyr bardwn ffurfiol wedi ymgyrch gan eu teuluoedd am flynyddoedd. Mae rhai wedi dadlau bod y gosb eithaf yn anaddas ar gyfer troseddau fel llwfrdra neu ffoi o’r frwydyr tra bod ambell un wedi dweud na ddylai ein hagwedd foesol ni heddi feirniadu trefn filwrol cyfnod arall.’

Hon yw’r ail flwyddyn i Martin ennill Cadair Eisteddfod y Rhondda. ‘Diolch i’r pwyllgor am drefnu eisteddfod ar adeg heriol,’ meddai, ‘ac i’r cystadleuwyr a’r beirniaid. Mae’r digwyddiad yn hwb i’r iaith yn ein cymunedau.’

Dywedodd y trefnwyr fod mwy na 200 o gynigion mewn pedair cystadleuaeth ar ddeg. Ymhlith noddwyr yr eisteddfod roedd y Fenter Iaith a’r cyngor sir a noddwr y gadair oedd Cymdeithas Gymraeg Treorci.

Dyma gerdd Martin:

**Yfory**

*Poperinghee, 1917*

Y wal, hi a welaf,
nhw fydd yn gwylio targed â llyged llaith.

Ddim yn angof ’yn atgofion:
dyddie diniwed, sialc yn wiced ar wal.
Yn ben ar deyrnas y bêl,
ei gyrru’n glatsh at y gorwel,
yn union fel ergydion y gad.
Crwt anghyflawn, ’y myd yn llawn, yn llon.

’Wy’n aros iddi nosi.

Diléit y cadfridog yw dileu,
cilwenu cyn malu gobeithion milwr
fel damshil ar whilen.
Ei lofnod heb wewyr yn fyr:
saethu’n farw.


Sŵn pêl fel angerdd sy’n pylu.

Dros y Sianel y des i faeddu’r gelyn.
Bydd gwawr ar led cyn ergydion bwledi
ac ataf fi anela, tania ’y mhlatŵn.

Loetran ma’ cysgodion amdanaf,
y nos yn cripad yn iasol.

Y wal, hi a welaf:
wal ddi-liw ’y niwedd.
Yn anochel, nychaf.

Mae’r feirniadaeth yn llawn ar https://www.facebook.com/EisteddfodYRhondda



*Cofeb i’r Milwyr gafodd eu Saethu ar Doriad Dydd yn yr Arboretum Coffa ger Alrewas, Swydd Stafford*



*Y man dienyddio, Poperinghee, Gwlad Belg*